
Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru

Adroddiad y Grŵp Arbenigol

Medi 2022

CYNNWYS

Rhagair	3
Y Grŵp Arbenigol	5
Crynodeb Gweithredol	6
Cyflwyniad	8
Gweledigaeth ac Egwyddorion	10
1. Sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth	13
2. Cydgynhyrchu Gofal gyda Dinasyddion yng Nghymru	15
3. Cefnogi a Gwerthfawrogi'r Gweithlu	18
4. Cefnogi'r hyn sy'n Bwysig	23
5. Ffurio partneriaeth yn lleol o gwmpas yr Unigolyn sydd angen Cymorth	28
6. Buddsoddi mewn Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	32
7. Symud tuag at Ofal am Ddim	34
Y Camau Nesaf	43
Atodiad 1: Cylch Gorchwyl	45
Atodiad 2: Rhestr o'r Dogfennau a Adolygwyd	48

RHAGAIR

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad hwn ar ran aelodau'r Grŵp Arbenigol, a dynnwyd ynghyd i gynghori ynglŷn â'r uchelgais a rennir o gael Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Drwy drafod yn helaeth ac ystyried corff sylweddol o dystiolaeth, mae'r Grŵp wedi cynhyrchu gwerthusiad eang o'r elfennau allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer creu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ar gyfer plant, teuluoedd ac oedolion, gan roi sylw neilltuol i sut y gellid darparu gofal yn rhad ac am ddim lle a phan fo'i angen.

Roedd y brîff helaeth o fewn y Cylch Gorchwyl ar gyfer y darn hwn o waith yn heriol o fewn y cyfnodau amser a ddyrannwyd, oherwydd natur gymhleth darparu gofal cymdeithasol. O fewn y Cytundeb Cydweithredu, rhagdybid y byddai'r Grŵp Arbenigol yn llunio ei adroddiad erbyn diwedd mis Ebrill 2022. Fodd bynnag, ffurfiwyd y Grŵp ym mis Chwefror 2022 (cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar yr 28^{ain} o Chwefror) ac ar ôl i estyniad bychan gael ei ganiatáu gan y Dirprwy Weinidog a'r Aelod Dynodedig hyd at ddiwedd mis Mehefin 2022, caniatwyd estyniad pellach hyd at ddiwedd mis Medi.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai meysydd clir i ganolbwyntio arnynt, yn ceisio dechrau diffinio swyddogaeth Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn gwneud rhai awgrymiadau ac argymhellion penodol drwyddo draw ar gyfer y camau nesaf ymarferol tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol. Mae hefyd yn nodi rôl hanfodol ymgynghori ac ymgysylltu pellach â'r Sector Cymdeithasol cyfan er mwyn sicrhau ein bod yn gosod y sylfeini'n gywir, ac yn cynhyrchu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sy'n addas ar gyfer y presennol ac ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar i'n cyd-aelodau o'r Grŵp Arbenigol, sydd wedi rhoi oriau lawer i'r gwaith hwn. Maent wedi dod â chyfoeth o arbenigedd a phrofiad personol a phroffesiynol at ei gilydd, ac wedi gwneud y gwaith anodd o gydgyhyrchu awgrymiadau ar gyfer sylfeini y gobeithiwn y gellir eu datblygu ymhellach ac adeiladu arnynt.

Gyda grŵp amrywiol o leisiau a chefnidiroedd o amgylch y bwrdd, roedd yn anochel bod gwahaniaethau barn. Ni fu'n bosibl cynrychioli'n llawn yr holl safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses hon drwy gydol yr adroddiad, oherwydd yr angen i fod yn gryno a chydlynol. Mae'n bwysig nodi bod gan bob aelod o'r Grŵp safbwyntiau gwahanol a chdir, ac awgrymiadau i'w cyfrannu i'r broses, a bu cryn gyfaddawdu. Felly, nid yw'r camau ymarferol a amlinellir isod o reidrwydd yn cynrychioli consensws cyffredin ar bob pwynt, ond maent yn cynnig manau cychwyn ar gyfer trafodaeth a chmau gweithredu posibl. Mae'r aelodau'n cytuno'n llwyr ac o waelod calon fod angen mwy o newid a buddsoddiad yn y system, ac yn teimlo y bydd y meysydd craidd a drafodir yn yr adroddiad hwn yn ganolog i'r camau nesaf wrth symud ymlaen.

Rydym yn cytuno'n unfrydol mai'r cam cywir nesaf fydd ymgynghori helaeth â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, eu gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol, ac ystod eang o randdeiliaid eraill, i fynd â'r gwaith hwn i'w iteriad nesaf. Dim ond drwy gydgyhyrchu gwirioneddol y byddwn yn adeiladu'n llwyddiannus ar gynnwys yr adroddiad hwn, i greu'r cynlluniau cyflawni cyfnodol a'r fframweithiau gweithredu sy'n angenrheidiol er mwyn i Wasanaeth Gofal Cenedlaethol uchelgeisiol a llwyddiannus yng Nghymru ddod i'r amlwg.

Mae holl aelodau'r grŵp yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector gofal cymdeithasol ehangach i barhau i lywio'r uchelgais cyffredin hwn.

Dilwyn Owen Williams a Kate Young

Y GRŴP ARBENIGOL

Roedd y Grŵp Arbenigol yn cynnwys:

Abyd Quinn Aziz

Charles Tallack

Cian Sion

Dilwyn Owen Williams (Cydgadeirydd)

Gio Isingrini

Kelly Andrews

Yr Athro Kamila Hawthorne

Kate Young (Cydgadeirydd)

Yr Athro Mark Llewellyn

Mark Turner

Mary Wimbury

Rhian Davies

Rhian Huws Williams

Dr Vanessa Webb

Mae holl aelodau'r Grŵp wedi cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Grŵp, naill ai'n bersonol neu yn rhinwedd eu swydd broffesiynol, fel unigolion yn hytrach nag fel cynrychiolwyr y sefydliad oedd yn eu cyflogi neu gynrychiolwyr fforymau neu gyrff eraill y gallent fod yn perthyn iddynt neu fod yn aelodau ohonynt.

Mae'r ymrwymiad amser wedi bod yn sylweddol ac mae wedi gwneud cyfanswm o oriau lawer i bob aelod o'r Grŵp, yn cynnwys cymryd rhan mewn trafodaeth fanwl, ystyried tystiolaeth, a chynhyrchu'r adroddiad hwn.

Cefnogwyd y Grŵp wrth gynhyrchu'r adroddiad gan Rebecca Woolley, a hoffem ddiolch iddi am ddod â'i harbenigedd i'r broses hon fel golygydd annibynnol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Grŵp Arbenigol sy'n cynnwys 14 o aelodau yn gweithredu'n annibynnol ac o fewn ffiniau eu harbenigedd personol a phroffesiynol eu hunain, wedi gweithredu yn unol â'r Cylch Gorchwyl a nodir yn Atodiad 1, i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ar greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sydd am ddim lle a phan fo'i angen.

Cafodd y Grŵp drafodaethau helaeth am bwysigrwydd y gwerthoedd, yr egwyddorion, a'r weledigaeth a eglurir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (a elwir 'y Ddeddf' o hyn ymlaen). Roeddent yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol: rhoi llais a rheolaeth i ddinasyddion, cydgynhyrchu gofal a gwasanaethau, dull systemau sy'n cael ei yrru fwy gan ataliaeth a llai gan argyfwng, gwneud gwaith amlasiantaethol yn bosibl, a phwysigrwydd cyflawni canlyniadau llesiant drwy ddull seiliedig ar hawliau. Yn unol â hynny, yn ogystal â rhoi cyngor ar y camau sydd eu hangen i wneud y gwasanaeth yn rhad ac am ddim lle a phan fo'i angen, mae'r Grŵp hefyd wedi gwneud cyfres o awgrymiadau ar faterion hollbwysig eraill. Maent yn credu bod y rhain yn fater o raid os yw Cymru am wireddu'r weledigaeth a eglurir yn y Ddeddf.

Bydd Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru yn gwireddu dyfodol lle:

- Bydd plant, pobl ifanc ac oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth yn cael eu grymuso i leisio'r hyn sy'n bwysig iddynt ac yn cael adnoddau i wella eu lles a chael rheolaeth yn eu bywydau bob dydd a'u dyheadau;
- Bydd gweithlu gofal cymdeithasol medrus, sy'n cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn derbyn adnoddau, yn cael ei grymuso i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion a chymunedau, ar y cyd â hwy, ac yn cael ei wobrwyo'n briodol am wneud hynny;
- Bydd diwylliant arweinyddiaeth gyfiawn a theg yn grymuso dinasyddion, cymunedau a'r gweithlu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig ac yn atebol am wella lles drwy arloesi, cydgynhyrchu a dulliau sy'n canolbwyntio ar berthynas;
- Bydd gwasanaethau gofal a chymorth yn derbyn digon o adnoddau, yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar y gymuned, yn cael eu cyfeirio gan yr unigolyn ac am ddim lle cânt eu darparu.

Yn seiliedig ar y weledigaeth hon, mae'r adroddiad yn cyflwyno casgliad diffiniedig o newidiadau y bydd angen eu gwneud er mwyn i Wasanaeth Gofal Cenedlaethol Cymru wneud ysbryd y Ddeddf yn brofiad byw ym mywydau ein dinasyddion.

Mae'r newidiadau hyn wedi eu rhannu'n 7 maes allweddol i'w hystyried:

1. Sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
2. Cydgynhyrchu Gofal gyda Dinasyddion yng Nghymru

3. Cefnogi a Gwerthfawrogi'r Gweithlu
4. Cefnogi'r hyn sy'n Bwysig
5. Creu partneriaeth yn lleol o amgylch yr Unigolyn sydd angen Cymorth
6. Buddsoddi mewn Atal ac Ymyrryd yn Gynnar
7. Talu am Ofal

Ym mhob maes, mae'r Grŵp wedi gwneud rhai awgrymiadau penodol ar gyfer camau nesaf ymarferol, sy'n cael eu dangos mewn print trwm ac wedi eu mewnnoli er mwyn eu dwyn i sylw'r darllenydd.

Drwy gydol eu trafodaethau roedd y Grŵp yn cydnabod yn frwd gylch gorchwyl 'o'r crud i'r bedd' gofal cymdeithasol, a'r angen i dalu sylw arbennig i wasanaethau plant fel rhan benodol o'r system gyfan. Er nad yw'r adroddiad hwn yn mynd i fanylder gweithredol o ran darparu gwasanaethau, bydd yn ofynnol i bob parti sydd â'r gwaith o sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ystyried yn ofalus anghenion gofal a chymorth penodol ein plant yng Nghymru.

Bu'r Grŵp hefyd yn myfyrio ar yr angen i'n system gofal cymdeithasol a chymorth adlewyrchu'n fwy digonol amrywiaeth ein pobl yng Nghymru, ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig, daearyddiaeth, a grwpiau demograffig, er mwyn cwrdd ag anghenion unigol pobl yn well. Mae'r Grŵp yn daer y dylai camau nesaf y gwaith o sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol gynnwys ymgysylltu ystyrlon, cydgynhyrchu, ac asesu effaith yn ofalus, gan weithio'n uniongyrchol gyda dinasyddion a grwpiau cymunedol.

Yn olaf, dylid nodi bod y Grŵp wedi ystyried enw'r gwasanaeth cenedlaethol, er nad oedd hyn o fewn cwmpas eu briff. Yn ystod y drafodaeth, sylwasant fod perygl i'r gair 'gofal' (i raddau) ddal i ysgogi meddwl 'model meddygol'. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu byw bywydau annibynnol hapus, rhaid inni eu 'cefnogi' yn y dewisiadau a wnânt. Er mwyn adlewyrchu'r safbwynt hwn, yn hytrach na Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, efallai y byddem yn ystyried creu 'Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol'. Byddai hyn yn mynd beth o'r ffordd i ddangos y bwriad bod pobl Cymru wrth galon y gwasanaeth, a bod y cwbl y mae'r gweithlu cyflogedig a di-dâl yn ei wneud yn eu cefnogi i gyflawni eu nodau a'u canlyniadau. I'r diben hwnnw, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at 'Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol' o hyn ymlaen.

CYFLWYNIAD

1. Mae gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, drwy'r Cytundeb Cydweithredu, uchelgais ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol sydd am ddim lle a phan fo'i angen. Mae gofal cymdeithasol i barhau i fod yn gyfrifoldeb llywodraeth leol a pharhau fel gwasanaeth cyhoeddus, wedi'i wreiddio mewn ymrwymiad ar y cyd i gydraddoldeb a hawliau dynol a lle mae llais y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed yn glir.
2. Er mwyn cael eu cynghori ar sut i symud tuag at yr uchelgais gyffredin hon, daeth Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru â grŵp o 14 o unigolion ynghyd oedd â phrofiad sylweddol ar draws cwmpas y briff yr oeddent yn dymuno cael gwybodaeth amdano (cyfeirir at y grŵp o hyn ymlaen fel 'Y Grŵp Arbenigol' neu'n syml 'y Grŵp'). Gofynnwyd i'r Grŵp Arbenigol hwn ddarparu argymhellion ynghylch y camau ymarferol y dylid eu cymryd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Mae'r briff llawn a roddwyd i'w weld yn Atodiad 1.
3. Rhoddwyd y dasg benodol i'r Grŵp o adolygu'r dystiolaeth gyfredol am dalu am ofal cymdeithasol/cyllido gofal cymdeithasol a materion cysylltiedig, gan gynnwys yng nghydestun datblygiadau ar lefel y Deyrnas Unedig.
4. Mae'n bwysig nodi bod briff y Grŵp nid yn unig wedi cael ei ddiffinio gan ei Gylch Gorchwyl ond hefyd wedi cael ei gyfyngu gan y cyfnodau amser y gofynnwyd iddo adrodd ynddynt. Mynegodd y Grŵp drwy gydol eu trafodaethau mor hanfodol fydd cynnwys rhanddeiliaid yn helaeth wrth i'r syniadau y maent wedi eu dwyn ynghyd yma gael eu hailadrodd ymhellach. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfres o awgrymiadau sy'n ffurfio'r cam cyntaf ar daith tuag at newid sylweddol, y bydd rhaid eu cydgyhyrchu a'u llywio drwy ymgysylltu helaeth.
 - 5. Felly, y cam ymarferol cyntaf, a argymhellwyd yn unfrydol gan y grŵp, yw proses ymgynghori ac ymgysylltu helaeth.**
6. Er mwyn llywio eu ffordd o feddwl, ystyriodd y Grŵp wybodaeth o ystod eang o ffynonellau, a rhestrir pob un ohonynt yn Atodiad 2.

Y Cyd-destun Presennol

7. I ryw raddau, mae gan Gymru wasanaeth gofal eisoes a dylai fod ar gael yn genedlaethol ac yn gyson, yn sgil gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd consensws ymhlith y Grŵp Arbenigol bod y rhinweddau y dylid eu disgwyl gan Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol eisoes wedi cael eu hegluro yn y Ddeddf, ac y dylai sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol adeiladu ar y sylfaen hon.
8. Wrth drafod sut y dylid gweithredu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn ymarferol, cafodd y Grŵp drafodaethau helaeth am bwysigrwydd y gwerthoedd, yr

egwyddorion a'r weledigaeth a nodir yn y Ddeddf. Roeddent yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol: rhoi llais a rheolaeth i ddinasyddion, cydgynhyrchu gofal a gwasanaethau, dull systemau sy'n cael ei yrru fwy gan ataliaeth a llai gan argyfwng, gwneud gwaith amlasiantaethol yn bosibl, a phwysigrwydd bod canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni drwy ddull seiliedig ar hawliau.

9. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth a adolygwyd gan y Grŵp yn dangos bod y broses gyson o weithredu'r Ddeddf wedi syrthio'n fyr o gyflawni ei huchelgais. Felly, er bod y Grŵp yn hynod ymwybodol o'r cychwyn y gallai fod wedi rhoi cyngor ar sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol oedd am ddim lle a phan fo'i angen dim ond drwy roi cyngor ar sut i beidio â chodi tâl am wasanaethau, byddai ymarferiad mecanistig o'r fath (yn eu barn hwy) yn siŵr o fethu, gan y byddai'r pwysau a'r diffygion eraill yn y gwasanaeth presennol yn tanseilio safon gyffredinol briodol o ofal a chymorth.
10. Yn unol â hynny, yn ogystal â chynghori ar y camau sydd eu hangen i wneud y gwasanaeth yn rhad ac am ddim lle a phan fo'i angen, mae'r Grŵp hefyd wedi gwneud cyfres o awgrymiadau yn yr adroddiad hwn ynghylch materion hollbwysig eraill sy'n gysylltiedig â'r Cylch Gorchwyl, gan gynnwys rôl a chapasiti gofal a ariennir yn gyhoeddus a rôl a phwysigrwydd darparwyr y sector gofal cymdeithasol ehangach.
11. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, mae'r Grŵp hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r brys sy'n tanlinellu'r sefyllfa bresennol ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, lle, er gwaethaf ewyllys da a rennir i ddarparu'r gofal gorau o fewn ein gallu, mae'r ddarpariaeth a'r capasiti yn cael eu hymestyn i'r eithaf. Felly mae'r camau ymarferol a awgrymir yn yr adroddiad hwn yn myfyrio ar y rôl strategol y gallai Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ei chyflawni i helpu i fynd i'r afael â'r heriau hynny yn uniongyrchol.

GWELEDIGAETH AC EGWYDDORION

Sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru: gosod sylfeini diwylliannol cryf

12. Rhaid i Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol wireddu ysbryd 'llais a rheolaeth' i ddinasyddion, a bod yn wasanaeth sy'n cael ei gydgynhyrchu'n wirioneddol rhwng y rhai sydd angen gofal a chymorth a'r rheiny sy'n ei ddarparu. I'r diben hwnnw, mae'n bwysig datgan bod yr egwyddorion a ganlyn yn y weledigaeth wedi cael eu nodi gan y Grŵp gan gydnabod nad ydynt wedi cael eu cydgynhyrchu'n llawn, na'u profi'n llawn ar hyn o bryd, gyda dinasyddion na gweithwyr rheng flaen, oherwydd y cyfyngiadau amser a chylch eu gwaith. Rhaid i sicrhau bod eu lleisiau hwy'n cael eu clywed fod yn un o'r camau pwysig nesaf yn y broses.
13. Mae'r egwyddorion hyn yn cyfuno i greu gweledigaeth y dylai ein Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol fod yn seiliedig arni, ac y gellir ei fesur yn ei herbyn. Cynigir yr egwyddorion fel canllaw lefel uchel i lywio'r camau nesaf tuag at newid, a fydd o reidrwydd yn dod yn fwyfwy manwl a gweithredol.

Bydd Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru yn gwireddu dyfodol lle:

- Bydd plant, pobl ifanc ac oedolion, y mae arnynt angen gofal a chymorth, yn cael eu grymuso i leisio'r hyn sy'n bwysig iddynt ac yn cael adnoddau i wella eu lles a chael rheolaeth yn eu bywydau bob dydd a'u dyheadau;
- Bydd gweithlu gofal cymdeithasol medrus, sy'n cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn derbyn adnoddau yn cael ei rymuso i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion a chymunedau, ar y cyd â hwy, ac yn cael ei wobrwyo'n briodol am wneud hynny;
- Bydd diwylliant arweinyddiaeth gyfiawn a theg yn grymuso dinasyddion, cymunedau a'r gweithlu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig, ac yn atebol am wella lles drwy arloesi, cydgynhyrchu a dulliau sy'n canolbwyntio ar berthynas;
- Bydd gwasanaethau gofal a chymorth yn derbyn digon o adnoddau, yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar y gymuned, yn cael eu cyfeirio gan yr unigolyn ac am ddim lle cânt eu darparu.

Y newidiadau sy'n ofynnol i sylweddoli'r weledigaeth

14. Mae cymhlethdod y dystiolaeth a'r safbwyntiau amrywiol ar draws trafodaethau ac ystyriaethau'r Grŵp yn dangos maint enfawr y newid a'r cydweithio sydd eu hangen i wireddu'n llawn y weledigaeth o Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Mae'n debygol y bydd angen cynllun cyflawni graddol o 10 mlynedd o hyd o leiaf i gyd-fynd â'r weledigaeth a gyflwynir uchod, er mwyn cydnabod ei uchelgais lawn, ond mae'n rhaid i'r daith gychwyn yn awr ac mae rhai camau y gellir eu cymryd ar unwaith.
15. Gan ddefnyddio eu holl arbenigedd a'u gwybodaeth gyda'i gilydd, a chan gyfeirio at y dystiolaeth oedd ar gael iddynt, mae'r Grŵp yn cynghori y byddai'r newidiadau allweddol a ganlyn yn gymorth i wireddu'r weledigaeth a ddisgrifir uchod, ac y dylid adeiladu'r rhain, yn dilyn ymgynghoriad ehangach, yn gynllun gweithredu clir, gyda chynodau presennol, canol a hirdymor ar gyfer cyflawni:
 - **Cydraddoldeb â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol:** Rhaid i ofal cymdeithasol gymryd ei le ochr yn ochr â'n gwasanaeth iechyd hynod werthfawr, gyda brandio cenedlaethol clir cryf i gefnogi'r canfyddiad cywir ei fod yn gyfartal o ran ei werth. Rhaid i hyn gynnwys cyllid cyfartal i gydnabod buddsoddiad cyfartal ar gyfer angen cyfartal, ynghyd ag adnoddau ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau;
 - **Buddsoddiad ariannol priodol yn y system gofal cymdeithasol:** Rhaid inni fuddsoddi yn awr, i sicrhau bod gan y system ddigon o adnoddau a strwythur i ymateb i'r angen a'r galw yn y dyfodol, ei bod yn gynaliadwy i'r dyfodol, ei bod yn cwrdd ag amcanion y Ddeddf, ac yn gwneud gofal yn rhad ac am ddim lle a phan fo'i angen;
 - **Symudiad yn y dyraniad adnoddau tuag at atal ac i ffwrdd oddi wrth argyfwng:** Rhaid cefnogi uchelgais y Ddeddf gan fuddsoddi mewn gwaith 'i fyny'r afon' i gefnogi plant, teuluoedd ac oedolion er mwyn atal dirywiad ac er mwyn osgoi argyfyngau;
 - **Egwyddorion a/neu safonau a rennir yn genedlaethol i leihau amrywiadau anghyfiawn:** Mae'n hanfodol creu diwylliant cenedlaethol cyffredin, fel bod dinasyddion ledled Cymru yn cael yr un mynediad at ofal a chymorth ni waeth ble maent yn byw;
 - **Yr un agwedd at werthoedd ac arweinyddiaeth ar draws y genedl:** Rhaid i wasanaethau gael eu cynllunio, eu comisiynu a'u darparu gyda gwerthoedd y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn greiddiol iddynt, a rhaid inni gael mesurau perfformiad gwirioneddol ac atebolrwydd clir i droi'r gwerthoedd hynny'n realiti;
 - **Gweithlu gofal sy'n cael ei dalu a'i gefnogi'n briodol:** Mae'n hanfodol cydnabod gwerth ein gweithwyr medrus drwy fynd i'r afael â'u cyflog a'u telerau ac amodau;

- **Cydnabyddiaeth gyhoeddus genedlaethol o ofalwyr di-dâl fel partneriaid mewn gofal:** Rhaid inni dynnu sylw'r cyhoedd at y gost a arbedir i wasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru gan y rôl amhrisiadwy a chwaraeir gan ofalwyr di-dâl wrth ddarparu gofal a chymorth yn eu cymunedau lleol;
- **Newid diwylliant ar draws y system gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson sy'n grymuso cydgynhyrchu ar y rheng flaen:** Mae'n rhaid i'n gweithlu medrus iawn a'n darparwyr cymunedol ar draws y sector gofal cymdeithasol cyfan gael eu grymuso i weithio mewn gwir bartneriaeth leol i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion, gydag arweinwyr yn cael eu galluogi i weithredu fel rhai sy'n datrys problemau, sy'n cynorthwyo ac yn galluogi'r rheiny sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y rheng flaen;
- **Gweithio'n lleol ar draws ffiniau sefydliadol yn seiliedig ar sgysiau 'beth sy'n bwysig':** Er mwyn dod ag ysbryd y Ddeddf yn wirioneddol fyw, mae'n rhaid inni siapio'r broses o gomisiynu gwasanaethau cymunedol yn seiliedig nid yn unig ar ddata poblogaeth. Rhaid inni hefyd gynnwys y broses gywir o gofnodi asesiadau o angen, a'r bylchau a ganfuwyd, a thrwy hynny sicrhau bod lleisiau a syniadau dinasyddion ar flaen y broses o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol;
- **Cydnabyddiaeth genedlaethol bod gwytnwch cymunedol wrth wraidd cynnal gofal cymdeithasol i'r dyfodol:** Cydnabod rôl y trydydd sector, gwirfoddolwyr cymunedol, a grymuso atebion sy'n eiddo i'r gymuned, i fod yn bartneriaid ochr yn ochr â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus;
- **Diwylliant o alluogi:** Er mwyn cyflawni'r newidiadau sylweddol a amlinellwyd uchod, bydd yn hanfodol symud tuag at ddeialog sy'n hyrwyddo dull o ddarparu gofal ledled Cymru sy'n fwy cytbwys o ran risg. Dylai hyn barhau i amddiffyn safonau diogelu, ond hefyd gwydnabod y gall dull llai cynnil o reoli risg arwain yn anfwriadol at wrthwynebiad cyffredinol i risg, sydd â'i beryglon cynhenid ei hun i ddinasyddion unigol.

1. SEFYDLU SWYDDFA GENEDLAETHOL GOFAL A CHYMORTH

Adeiladu sylfeini cryf ac ymdrin â'r newidiadau angenrheidiol

16. Dylid pwysleisio bod pob un o'r newidiadau uchod yn cyfrannu at un cyfanwaith rhyng-gysylltiedig, sydd wedi'i fwriadu i arwain at sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol sy'n gallu cyflawni gweledigaeth y Ddeddf, ac a fyddai, yn amodol ar y cyllid angenrheidiol, am ddim lle a phan fo'i angen.
17. Drwy ganolbwyntio'r newidiadau hyn drwy un endid Cenedlaethol, mae'r Grŵp yn credu y gellir gwireddu manteision cysondeb, proffil ac arweinyddiaeth yn llawn. Felly, mae'r Grŵp yn argymhell ein bod yn sefydlu endid/Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth er mwyn sicrhau'r cydgysylltu angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth gyffredin hon.
18. Dylid ystyried yn ofalus yr egwyddorion y sefydlir yr endid/Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth arnynt. Mae'r Grŵp yn cydnabod arweinyddiaeth awdurdodau lleol ledled Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd, ac yn nodi yn unol â hynny y dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth fod yn gyfrifol am sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar y pethau hynny na ellir eu cyflawni ond ar lefel genedlaethol, a datrys unrhyw rwystrau a ganfyddir gan Awdurdodau Lleol a/neu Fyrddau Iechyd na allant hwy eu hunain eu datrys. Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth ddylai fod y corff gofal cymdeithasol arweiniol y gallant droi ato am gymorth pan fo angen.
19. Yn ystod eu trafodaethau, sylwodd y Grŵp hefyd fod llawer o gyrff ac asiantaethau eisoes yn gwneud gwaith sy'n hanfodol i ofal cymdeithasol yng Nghymru, i gyd â chyfansoddiad gwahanol. Nid yw'r Grŵp yn awgrymu cael swyddogaeth/corff cydlynu canolog sy'n ceisio torri ar draws gwaith yr asiantaethau eraill hyn. Yn lle hynny, byddai'r Grŵp yn rhagweld endid cenedlaethol canolog a fyddai'n gyfrifol am gadw 'llygad barcod' ar bob elfen o'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan fod yn gyfrifol am weledigaeth genedlaethol gyffredin a darparu arweinyddiaeth gref tuag at weithredu ysbryd y Ddeddf drwy Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol unedig.
20. Rhestrir isod rai o'r elfennau y gallai fod angen i swyddfa Genedlaethol eu tynnu at ei gilydd i'w hystyried. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr, ond mae'n fan cychwyn ar gyfer ymgynghori a dadlau:
 - Telerau ac amodau cenedlaethol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol
 - Safonau gweithlu cyflogedig cenedlaethol
 - Cefnogaeth genedlaethol ar gyfer hyfforddi a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol
 - Cytundeb cenedlaethol ar gyfer siarter hawliau a phroses herio ar gyfer dinasyddion a gofalwyr di-dâl
 - Mesurau ansawdd a chyflawni cenedlaethol (canlyniadau)
 - Canllawiau a safonau comisiynu cenedlaethol, a rheoleiddio prisiau cenedlaethol

- Banc tystiolaeth/data cenedlaethol o ‘beth sy’n bwysig’, yn seiliedig ar angen a ganfuwyd oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn mapio a siapio’r gwasanaethau y bydd eu hangen yn y dyfodol
 - Dull cenedlaethol o gasglu a rhannu data a gwybodaeth
 - Cydraddoldeb cenedlaethol i weithwyr ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd
 - Adnodd cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth
 - Safonau cyfathrebu cenedlaethol, i adlewyrchu'r Gymraeg, a dewis iaith i bawb
 - Safonau cydraddoldeb a thegwch cenedlaethol
 - Adnodd cenedlaethol ar gyfer ymchwil a data ym maes gofal cymdeithasol
 - Safonau/canllawiau diogelu cenedlaethol
 - Arweinyddiaeth genedlaethol i gefnogi a sefydlu diwylliant a rennir o ofal yng Nghymru
21. Er mwyn parhau i arwain ar newid diwylliant, sydd â phrofiad y dinesydd yn ganolog iddo, dylai aelodaeth o’r Swyddfa genedlaethol Gofal a Chymorth gynnwys/gael mynediad at nifer sylweddol o leisiau dinasyddion, gan gynnwys y rheiny sy’n dod â dealltwriaeth o’r ystod amrywiol o gymunedau ledled Cymru, megis profiad o anabledd, gofalwyr di-dâl, lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg, Undebau Llafur, lleisiau o'r trydydd sector, darparwyr ac aelodau proffesiynol annibynnol sydd â phrofiad uniongyrchol o ffurfio a galluogi newid diwylliant.
22. Nododd y grŵp fod angen i union rôl y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth a’i phartneriaethau â’r sector ehangach fod yn seiliedig ar ymgynghori a thrafod ag ystod eang o randdeiliaid. Fodd bynnag, teimlai'r Grŵp yn gryf y bydd angen iddi gael rôl gydgysylltu ganolog mewn rhyw ffurf er mwyn sicrhau y gellir sefydlu’r weledigaeth o Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn llwyddiannus.

2. CYDGYNHYRCHU GOFAL GYDA DINASYDDION YNG NGHYMRU

23. Drwy gydol ei waith, rhoddodd y Grŵp Arbenigol ystyriaeth benodol i roi lle canolog i leisiau dinasyddion Cymru. Buont yn myfyrio ar ysbryd y Ddeddf, sydd â'r uchelgais o osod pobl wrth galon y system drwy roi llais cyfartal iddynt yn y cymorth y maent yn ei dderbyn.
24. Er gwaethaf yr uchelgais hwn, adolygodd y Grŵp Arbenigol lawer iawn o dystiolaeth sy'n dangos, er bod llawer o gynnydd wedi cael ei wneud, bod angen mwy o waith i gyflawni ysbryd y Ddeddf yn gyson ledled Cymru.
25. Mae yna gyfle gyda sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i gyd-greu gofal mewn ffyrdd ystyrllon sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan adeiladu ar y sylfaen helaeth o dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio.
26. Dylai Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol newydd i Gymru allu:
- Cydnabod a gwella statws, gwerth a llais gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth;
 - Gwella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu meysydd pellach o gymorth dan gyfeiriad dinasyddion;
 - Catalaiddio rôl mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol fel ffordd o chwyddo llais y dinesydd, a hynny'n cael ei ategu gan ffyrdd gwell o gyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar berthynas;
 - Gwneud yn siŵr bod dinasyddion yn gallu gwireddu eu hawliau o dan y Ddeddf;
 - Hyrwyddo materion yn ymwneud â chydraddoldeb a chynhwysiant, gan gydnabod croestoriad lleisiau a chymunedau gwahanol.
27. Wrth i gynlluniau manylach ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ddatblygu ac wrth sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, dylid rhoi prawf ar ddatblygiadau yn erbyn y cwestiwn: "I ba raddau y bydd atebion posibl yn gwella 'llais a rheolaeth' a 'chydgyhyrchu' i ddinasyddion?"

Ymwybyddiaeth ac Eiriolaeth

28. Os yw cydgyhyrchu ac ymgysylltu gwirioneddol gyda gofal a chymorth yn mynd i fod yn bosibl i bob dinesydd yng Nghymru, mae angen inni yn gyntaf godi lefel ymwybyddiaeth yn gyffredinol, dealltwriaeth a disgwyliadau o'r hawl i fyw'n annibynnol, a lle gofal cymdeithasol ymhlith agweddau eraill ar fywyd cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r system fod yn llawer haws ei defnyddio, yn hawdd ei deall, ac yn hygyrch, yn enwedig i bobl nad oes ganddynt efallai brofiad na gwybodaeth flaenorol o ddefnyddio gwasanaethau ieuchyd a/neu ofal cymdeithasol.

29. Yn ogystal â sefydlu'r lefel ddyfnach hon o ddealltwriaeth, bydd rôl bob amser i eiriolaeth fel rhan werthfawr o'r system gofal cymdeithasol a chymorth. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod rôl eiriolaeth yn cael ei gwerthfawrogi, bod eglurder ynghylch diben eiriolaeth, a bod eiriolaeth cymheiriaid yn benodol yn cael ei gwella fel rhan ataliol o'n system.
30. Wrth wneud y gwaith hwn, efallai y bydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn dymuno ystyried pa mor ddigonol a chynaliadwy yw cyllid ar sail genedlaethol ar gyfer y mathau presennol o eiriolaeth, yn ogystal ag eiriolaeth nad yw yn derbyn cyllid ar hyn o bryd. Efallai y bydd arnynt hefyd eisiau gwneud gwaith i ddatblygu sut gallai'r hyn sy'n cyfateb i 'nod barcud' edrych ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru.

Ymdrin â'r Anghydbwysedd Grym

31. Er gwaethaf uchelgeisiau'r Ddeddf i fod wedi trawsnewid yr anghydbwysedd grym rhwng dinasyddion sy'n defnyddio gofal a'r gweithwyr proffesiynol a'r prosesau systemig y maent yn ymgysylltu â hwy, mae'r anghydbwysedd yn parhau.
32. Treuliodd y Grŵp amser yn ystyried sut y gellid newid hyn yn ystyrllon ac yn wirioneddol, gan gynnwys meddwl am rôl data, cudd-wybodaeth, casglu safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewn ffordd ystyrllon, ac ystyried sut y gallai Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol harneisio adborth o leisiau'r rhai sy'n profi gofal, er mwyn ysgogi gwelliant parhaus mewn ansawdd heb syrthio i 'feddylfryd cwyno'. Bydd angen hyn ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
33. Wrth ystyried camau ymarferol ymlaen, bu'r Grŵp yn trafod adrodd straeon, 'Eiliadau Hud', 'Newid Mwyaf Arwyddocaol', a syniadau 'TripAdvisor', ac roeddent yn cydnabod bod gweithredwyr yn hollbwysig wrth ymgyrchu a chyflawni newid 'o'r tu allan'. Plant, pobl ifanc ac oedolion yw'r arbenigwyr ynddynt eu hunain.
34. Mae ehangder a llafaredd y sgysiaid am y pwnc hwn yn dangos ei bod yn hollbwysig inni feddwl yn wahanol am leisiau dinasyddion mewn gofal. Bellach, mae gennym sylfaen enfawr ac amrywiol o dystiolaeth sy'n dweud wrthym beth mae dinasyddion yn ei feddwl a'i angen, ac nid oes angen casglu data pellach. Mae'n hanfodol yn awr bod ein Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn cael ei adeiladu ar sylfeini'r dystiolaeth hon a bod atebion gweithredol yn cael eu llywio ganddi.
- 35. Wrth ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, mae'n rhaid i ffyrdd presennol o gasglu straeon dinasyddion ac adborth barhau i gael eu hymgorffori yn y system a'i chryfhau, gan eu galluogi i hysbysu'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu gwella a galluogi dysgu parhaus.**

Cydraddoldeb a Chynhwysiant

36. Yn ei drafodaethau ynghylch lleisiau dinasyddion mewn cydgynhyrchu gofal, mynegodd y Grŵp yn benodol yr egwyddor fod yn rhaid i bob dinesydd fod yn bartner cyfartal ym mhob agwedd ar ofal cymdeithasol, gan gynnwys llywodraethu ar bob lefel.
37. Roedd y Grŵp yn cydnabod nad yw'r dull presennol o ymgysylltu a darparu gofal yn y Gymraeg yn gweithio, gyda dim ond ychydig o berchnogaeth ar Mwy na Geiriau yn ei yrru ymlaen i newid ystyrlon ar gyfer dinasyddion 'ar lawr gwlad'. Rhaid mynd i'r afael â hyn wrth ffurfio Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.
- 38. Mae'r Grŵp yn awgrymu y dylid cael trosolwg cenedlaethol o gyflawni ar draws y sector gofal cymdeithasol a chymorth, mewn ymateb i'r Cynllun 5 mlynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyflawni Mwy Na Geiriau.**
39. Yn ehangach, mae'n hanfodol bod gwaith gwybodus ynghyd ag ymgysylltiad trylwyr yn digwydd wrth sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, i gydnabod croestoriad y lleisiau a'r cymunedau amrywiol sy'n cael eu cynrychioli a'u hadlewyrchu mewn ardaloedd ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys, fel blaenoriaeth uchel, rhoi sylw arbennig i ddatblygu'r Gwasanaeth yn unol â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru: Cymru Wrth-hiliol.
40. Roedd nifer o ddogfennau a ddaeth i law y Grŵp Arbenigol yn dangos bod gwasanaethau weithiau wedi syrthio'n fyr o anghenion unigolyn oherwydd nad oedd dealltwriaeth ddigonol o sut y dylai gofal cymdeithasol a chymorth da edrych i rywun o'u grŵp lleiafrifol ethnig. Mae'r Grŵp yn teimlo ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â hyn wrth ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.
- 41. Fel cam nesaf ymarferol, dylid ymgysylltu ag unigolion a grwpiau yn genedlaethol ar draws yr amrywiaeth o gymunedau yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod eu rhan hwy yn y gwaith o greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol wedi ei gynnwys o'r cychwyn cyntaf.**

3. CEFNOGI A GWERTHFAWROGI'R GWEITHLU

Cyflog, telerau ac amodau

42. Mae ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn dibynnu'n helaeth ar eu gweithlu, a daeth hwn yn bwynt ffocws pwysig i'r Grŵp Arbenigol. Rhoddodd y Grŵp sylw sylweddol i ddeall a myfyrio ar waith y Fforwm Gwaith Teg a rôl a swyddogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru.
43. Mae 'gwasanaethau pobl' yn ganolog i wasanaethau gofal a chymdeithasol. Y gweithlu yw eu prif adnodd, ac mae'r berthynas â phobl a chymunedau yn greiddiol iddynt. Heb weithlu, ni fyddai unrhyw wasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol.
44. Mae heriau gweithlu'r sector wedi bodoli ers blynyddoedd lawer, ond maent wedi gwaethygu'n ddifrifol yn dilyn pandemig Covid-19. Mae'r sector mewn cyflwr o argyfwng ar hyn o bryd; nid yw plant, pobl ifanc ac oedolion bob amser yn gallu cael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar yr amser y mae arnynt ei angen, yn eu cymuned. Mae swyddi gweigion mewn Gwaith Cymdeithasol yn bryder sylweddol a chynyddol (yn enwedig yn y gwasanaethau plant). Mae angen gwella gwasanaethau atal a chymorth, ac mewn rhai achosion nid yw pobl yn cael eu rhyddhau mewn modd amserol o'r ysbyty oherwydd diffyg gallu yn y gweithlu ac adnoddau'r gymuned ehangach, i ymdrin â phryderon.
45. Clywodd y Grŵp fod yna brinder rolau allweddol megis Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol. Yn ogystal â heriau mwy cyffredinol y gweithlu, mae hyn yn golygu bod staff dan bwysau ac yn rheoli gormod o achosion ar unrhyw adeg benodol. Mae symudiad hefyd rhwng cyflogwyr oherwydd cyflogau neu delerau ac amodau amrywiol, sy'n achosi mwy o ansefydlogrwydd a newid yn y system.
46. Mae gwaith enfawr wedi cael ei wneud yng Nghymru dros y blynyddoedd i godi statws proffesiynol a phroffil cadarnhaol y gweithlu gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi esgor ar ateb cynaliadwy oherwydd na chafwyd buddsoddiad priodol i gyd-fynd ag ef, o ran cyflog ac amodau, a hefyd buddsoddiad yn y cymorth angenrheidiol i greu gweithlu rheoledig, cymwys.
47. Rhaid i fuddsoddiad yn ein gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru fod yn ystyriaeth allweddol wrth inni symud ymlaen tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, a rhaid i hyn fod ar raddfa sy'n gosod ein gwasanaethau gofal cymdeithasol ar yr un lefel â phroffesiynau hanfodol eraill.
48. Trwy ei drafodaethau, roedd y Grŵp yn glir bod angen mynd i'r afael ar fyrder â'r diffyg yn y cyflog ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. Nododd hefyd fod angen adolygu a yw'r cymhwyster newydd a'r gofynion cofrestru cyfredol yn arwain (neu beidio) at leihad yn y gweithlu. Ar y cyfan, pwysleisiai'r Grŵp yr angen i sicrhau dull cydweithredol, cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar weithlu cynaliadwy sy'n cael ei gefnogi'n briodol.

49. Mae'r Grŵp Arbenigol yn cydnabod, drwy waith y Fforwm Gwaith Teg, fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, sy'n gam yn y cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn argymhell y dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Fforwm Gwaith Teg symud yn gyflym, ac y dylai gytuno ar safonau cenedlaethol ar gyfer tâl, telerau ac amodau priodol ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

50. Mae'r Grŵp yn credu ei bod yn hanfodol er mwyn sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol fod y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gefnogi'n ddigonol fel blaenoriaeth ar unwaith. I danlinellu pwysigrwydd hyn, awgrymir bod rhinwedd mewn ffurfio uned fargeinio ar y cyd ar gyfer y gweithlu ar draws y sector, waeth pwy fo'r cyflogwr.

51. Fel cam nesaf ymarferol tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol effeithiol i Gymru, dylai Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ddechrau gweithio ar unwaith ar sefydlu Uned Gydfargeinio ar gyfer y sector cyfan, i gyflwyno amodau gweddus a strwythur cyflog a dilyniant newydd.

52. Drwy gydol y trafodaethau ynghylch tâl ac amodau'r gweithlu, roedd y Grŵp yn cydnabod bod rhai gweithwyr penodol, a modelau darparu, y mae angen rhoi sylw arbennig iddynt: sef Cynorthwyr Personol, a'r rheiny sy'n ymwneud â darparu gofal micro.

53. Dylid symud ymlaen â'r adroddiad diweddar a gyflwynwyd i'r Fforwm Gwaith Teg ar brofiad Cynorthwyr Personol fel blaenoriaeth, mewn partneriaeth â dinasyddion sy'n cyflogi Cynorthwyr Personol. Dylai canlyniadau'r gwaith hwn roi gwybodaeth i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wrth gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol wrth symud ymlaen.

54. Barn y Grŵp Arbenigol yw, er mwyn sicrhau cydraddoldeb ag Iechyd ac osgoi symud staff heb gyfiawnhad rhwng sectorau, mai'r nod ddylai fod i ddod â staff gofal ar raddfeydd cyflog (a telerau ac amodau lle bo modd) tebyg i staff y Gwasanaeth Iechyd, waeth pwy fo'r cyflogwr.

55. Mae'r grŵp yn cynghori y dylid cynorthwyo'r Fforwm Gwaith Teg i ddatblygu cynigion tuag at gydraddoldeb graddfeydd cyflog, telerau ac amodau (gan dderbyn y bydd goblygiadau i brosesau gwerthuso swyddi Awdurdodau Lleol a materion cyflog cyfartal o bosibl), a dylai hyn wedyn roi gwybodaeth i waith y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.

56. Cafodd amcangyfrifon cost ffyrdd amrywiol o ddiwygio'r gweithlu, a gynhyrchwyd gan LE Wales, eu hystyried gan y Grŵp Arbenigol. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost flynyddol o alinio tâl ac amodau â'r Agenda ar gyfer Newid a chyfraddau cyflog Awdurdodau Lleol yn 2021 (prisiau 2020) rhwng £135 miliwn a £203 miliwn yn y drefn honno.

57. Mae'n debygol y byddai rhywfaint o'r gost o fuddsoddi mewn aliniad cyflog yn cael ei wrthbwysu, gan fod talu mwy i'r rhai ar gyflogau isel yn trylifo i mewn i economïau lleol. I'r diben

hwnnw, nododd y Grŵp ei bod yn debygol bod cost heb ei mesur i economi Cymru ar hyn o bryd yn gysylltiedig ag atal tâl ac amodau.

58. Er bod aliniad cyflog yn cyflwyno goblygiadau cost sylweddol, ym marn y Grŵp Arbenigol, os na symudwn yn gyflym i'r cyfeiriad hwn, mae yna berygl na fydd gwasanaeth gofal yn bod yng Nghymru, p'un a yw'n cael ei ddarparu am ddim yn y fan lle y caiff ei ddarparu ai peidio.

Cefnogaeth ehangach i'n gweithlu gofal cymdeithasol

59. Er y gellir ei ystyried yn gyffredinol, mae'n bwysig nodi ei bod yn ymddangos bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu gwerthfawrogi lai yn y gymdeithas yn gyffredinol na'n gwasanaethau Iechyd, er gwaethaf y ffaith fod cysylltiad symbiotig rhwng y ddwy system a'u bod yn dibynnu y naill ar y llall. Os na fydd y sector Gofal Cymdeithasol yn cael ei wneud yn gydradd â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, bydd denu a chynnal gweithlu i ddarparu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn parhau i fod yn heriol.

60. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gweithwyr ym maes Gofal Cymdeithasol yn gorfod cofrestru; daeth cofrestru ar gyfer gofal cartref yn orfodol ym mis Ebrill 2020, a bydd cartrefi gofal yn dilyn ym mis Hydref 2022. Mae cofrestru wedi cael ei ystyried yn ffordd o broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae cost i gofrestru, nad yw pob cyflogwr yn ei hariannu, ac mae rhai gweithwyr gofal yn gadael y sector am nad oes arnynt eisiau ymgymryd â'r cymwysterau gofynnol.

61. Gellid cynnal adolygiad adeiladol o'r dull o gofrestru, mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid perthnasol, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd, cynorthwyo i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a ganfuwyd, ac ystyried gwerth posibl pennu lefelau gwahanol o gofrestru ar gyfer gweithwyr gofal yng Nghymru.

62. Gall dod yn weithiwr gofal fod yn ddrud iawn hefyd. Yn aml, darperir hyfforddiant yn ddi-dâl, mae llawer o ddarparwyr yn disgwyl i staff naill ai dalu costau llawn neu gostau rhannol am wisgoedd. Ychwanegwch at hyn gost gynyddol tanwydd, a bydd llawer o weithwyr yn methu â chyflawni eu rôl ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, na hyd yn oed ar y Cyflog Byw Gwirioneddol.

63. Efallai y byddai'n fuddiol adolygu'r bartneriaeth rhwng Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru, er mwyn sicrhau tegwch o ran buddsoddiad a mynediad at hyfforddiant i'r holl weithwyr gofal cymdeithasol, a llwybr clir ar gyfer y rheiny sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn gofal.

Gofalwyr di-dâl

64. Ni fyddai unrhyw ddadansoddiad o'r system a'r diwylliant cyflawni presennol yn gyflawn heb gyfeirio at y rôl hanfodol y mae gofalwyr di-dâl o bob oed yn ei chwarae yn y system

bresennol. Mae nifer o gyfeiriadau yn y cyhoeddiadau a ystyriwyd gan y Grŵp at y diffyg grym y mae rhai o'r unigolion hyn yn ei deimlo.

65. Mae gwasanaethau cymorth i ofalwyr yn hollbwysig. Maent yn sicrhau bod y grŵp amhrisiadwy hwn o fewn y gymuned gofal cymdeithasol ehangach yn gallu cael ei gefnogi'n well naill ai i barhau i ofalu neu gael cymorth i'w galluogi i roi'r gorau i ofalu, os ydynt yn dymuno. Er bod Asesiadau Gofalwyr wedi eu cynnwys yn y system bresennol, nid yw llawer o ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn cael un. Nid ydynt ychwaith mor effeithiol ag y dylent fod bob amser, gyda llawer o ofalwyr yn nodi mai ychydig o gymorth sy'n dilyn y trafodaethau 'beth sy'n bwysig'. Yn ei drafodaethau ynglŷn â rôl gofalwyr di-dâl, cydnabu'r Grŵp broblemau capasiti yn y system, ond teimlai y gellid gwneud mwy i gydnabod y rôl gyfartal y mae gofalwyr di-dâl yn ei chwarae wrth ddarparu gofal cymdeithasol.

66. Gallai gorchwyl y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth gynnwys arwain ar waith ymwybyddiaeth ddiwylliannol er mwyn galluogi pob partner ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd i gydnabod y berthynas symbiotig rhwng y gweithlu gofal cyflogedig hanfodol a gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr.

67. Er mwyn sefydlu cydnabyddiaeth ddiwylliannol i ofalwyr di-dâl, gallai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth hefyd ymroi'n rhagweithiol i hyrwyddo Siarter a Strategaeth Gofalwyr ar lefel genedlaethol, gan gadarnhau pwysigrwydd parhaus cefnogi gofalwyr di-dâl a cheisio sicrhau bod brand cenedlaethol gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r swyddogaeth y mae gofalwyr di-dâl o bob oed yn ei chyflawni.

Seibiant

68. Er mwyn sicrhau cymorth hirdymor i ofalwyr yng Nghymru, mae seibiant yn hanfodol ac mae angen ei weld fel rhan annatod o ddarparu gwasanaethau. Mae hefyd yn rhan allweddol o'r agenda atal, ar gyfer teuluoedd ac unigolion.

69. Dylid cynnwys yr arian, sydd wedi'i glustnodi ar hyn o bryd o amgylch y ddarpariaeth seibiant, mewn cynlluniau ariannu hirdymor ar gyfer y sector, fel buddsoddiad parhaus i wella cymorth a symud tuag at agwedd fwy ataliol at ofal cymdeithasol.

70. Dylid ystyried hefyd symud i fodel o seibiant hyblyg, a dylai cyllid blynyddol fod ar gael i archwilio a chynyddu dewisiadau seibiant gwahanol, neu efelychu prosiectau bychain llwyddiannus ledled Cymru.

Gwirfoddolwyr mewn gofal a chymorth

71. Wrth ystyried dyfodol Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, dylid hefyd ystyried rôl gwirfoddolwyr ac adeiladu cymunedau gofal ledled Cymru. Ni wnaeth y Grŵp gwmpasu'r agwedd hon ar ofal a chymorth yn fanwl ond mae'n cydnabod bod sefydliadau trydydd sector ledled Cymru a gwirfoddolwyr cymunedol yn cyfrannu'n sylweddol at y tapestri o ofal a chymorth a brofir gan bobl yn eu cymunedau lleol. Yn ysbryd cydgynhyrchu, a chynllunio gwasanaethau sydd â dymuniadau plant, teuluoedd ac oedolion yn ganolog iddynt, bydd rôl y trydydd sector, a gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn biler allweddol yn unrhyw Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol wrth symud ymlaen.

72. Dylai partneriaid trydydd sector a rhwydweithiau gwirfoddolwyr barhau i gael eu galluogi i fod yn gyd-ddylunwyr swyddogaethau gofal a chymorth yn y dyfodol, gan wella gofal cymdeithasol ehangach a meithrin cymunedau gwydn.

4. CEFNOGI'R HYN SY'N BWYSIG

Beth sydd wir yn bwysig?

73. Mae'r systemau a'r strwythurau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, a'r diwylliant o fewn y systemau hynny wedi datblygu dros amser, ac maent yn seiliedig ar arferion sydd wedi hen ymsefydlu sy'n seiliedig ar bwysau cyllidebol a ffiniau sefydliadol.
74. Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol, cyflogedig a di-dâl, yn gweithredu o fewn y system amherffaith hon, fel y mae dinasyddion ledled Cymru sy'n ymwneud â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol oherwydd bod arnynt angen gofal a chymorth. Rhoddodd y Grŵp ystyriaeth ofalus i'r modd y mae problemau systemig a diwylliannol ein gwasanaethau presennol yn atal y gweithlu gofal cymdeithasol rhag gwneud y swyddi y maent yn fedrus ynddynt ac yn teimlo'n angerddol yn eu cylch.
75. Pan fo'n ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus reoli cyllidebau'n dynn, yn anffodus gall effeithio ar ymddygiadau pawb sy'n gweithredu o fewn y system, boed yn aelodau cyflogedig neu ddi-dâl o'r gweithlu, neu ddinasyddion sydd angen mynediad at ofal a chymorth. Bu'r Grŵp yn ystyried yr effaith y mae'r cyfyngiadau hyn yn ei chael ar y sgysiau 'beth sy'n bwysig' sy'n digwydd ledled Cymru, y deddfwyd ar eu cyfer yn y Ddeddf, ac a fwriadwyd i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen mewn gwirionedd, yn ogystal â bywyd boddhaol ochr yn ochr â'u hanghenion gofal.
76. Mae'n amlwg oddi wrth sgysiau'r Grŵp a'r gwaith o gasglu tystiolaeth y gall sgysiau 'beth sy'n bwysig' ar hyn o bryd arwain yn aml at ddisgwyl i bobl ffitio i mewn i ba gymorth bynnag a roddir iddynt, yn hytrach nag archwilio a derbyn gwasanaethau sy'n addas ar gyfer yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy. Mae llawer o'r dogfennau a restrir yn Atodiad 2 yn cynrychioli barn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ac yn cadarnhau'r pryder hwn.
77. Yn y pen draw, dylai'r cysyniad o ofal fod yn broses dri cham syml i unigolion:
- Nodi'r hyn sy'n creu senario les lai na'r gorau;
 - Gweithio allan gyda hwy beth allai fod o gymorth i ddatrys y sefyllfa honno;
 - Darparu pa gymorth bynnag sydd ei angen i gyflawni'r datrysiad hwnnw.
78. Felly mae angen i'r gweithlu fod yn rhydd ac wedi cael ei rymuso i gynorthwyo dinasyddion i ddod o hyd i'r atebion cywir yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy.
79. Mae'n bwysig nodi mai methiant systemig yw methiant sgysiau 'beth sy'n bwysig' i gyflawni yn unol ag ysbryd y Ddeddf, nid beirniadaeth ar ein gweithlu gofal cymdeithasol ymroddedig. Mae'n bosibl bod a wnelo'r sbardunau sy'n effeithio ar y sgwrs 'beth sy'n bwysig' â'r gwasanaethau sydd ar gael, y cyllid, neu gyfyngiadau ar gapasiti ar draws gwasanaethau'r awdurdodau lleol ac iechyd (er enghraifft, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)). Ond gallant hefyd fod yn ganlyniad y cyfyngiadau amser sydd

ar y gweithiwr proffesiynol sy'n ymgymryd â'r sgwrs, sydd efallai ond ag ychydig o amser ar gael i ddeall sefyllfa unigolyn yn iawn ac sydd o ganlyniad yn gorfod canolbwyntio ar atebion a bennwyd ymlaen llaw yn hytrach nag edrych i mewn i rai newydd.

'Egwyddorion cynllunio' newydd ar gyfer gofal cymdeithasol

80. Mae gwreiddiau'r ymgyrch draddodiadol tuag at fwy o effeithlonrwydd drwy ddarparu gofal drwy brosesau penodol yn tarddu o leoliadau diwydiannol. Ond mae gofal a chymorth effeithiol ac amserol yn ymwneud â'r hyn sy'n bwysig i bobl, ac mae hyn yn amrywio'n sylweddol o unigolyn i unigolyn. Felly gall fod diffyg cysylltiad rhwng y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd ac uchelgais y Ddeddf, sef gwasanaeth unigol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i gydgyhyrchu. Mae'n rhaid i ddatblygiad Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol fynd i'r afael â'r diffyg cysylltiad hwn os yw i wir gyflawni rhywbeth gwahanol i bobl Cymru, a chydabod maint yr uchelgais a rennir.
81. Bu'r Grŵp Arbenigol yn siarad am y newid hwn yn y patrwm yn nhermau creu 'egwyddorion cynllunio' cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol a gwella iechyd.
82. Mae effaith y methiant systemig yn cael ei deimlo nid yn unig gan ddinasyddion sy'n ceisio ymgysylltu â gwasanaethau, ond hefyd gan y gweithlu gofal cymdeithasol a darparwyr, sy'n aml yn canfod eu bod yn methu â chynorthwyo pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt mewn gwirionedd. P'un a yw hynny oherwydd cyfyngiadau cyllid, pwysau sefydliadol, modelau yn seiliedig ar benderfyniadau o'r brig i lawr, amharoddrwydd diwylliannol i gymryd risg, ynteu gorfod gweithio o fewn systemau a strwythurau anhyblyg a bennwyd ymlaen llaw, mae'n aml yn arwain at deimlad o rwystredigaeth sy'n gyffredin i'r gweithiwr ac i'r dinasyddion, gan na ellir cyflawni'r 'hyn sy'n bwysig' yn llawn.
83. **Mae'r Grŵp yn cyngori'n gryf bod angen ail-osod y meddylfryd gweithredu sy'n llywio'r diwylliant a'r systemau presennol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: 'set o egwyddorion cynllunio' newydd.**
84. Os yw 'newid y systemau cyfan' i gael ei gyflawni yn y pen draw, rhaid i arweinwyr a gwasanaethau ar draws Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol gael eu grymuso i gyflawni canlyniadau a gydgyhyrchir mewn gwirionedd a hefyd eu galluogi i ddal eu systemau i gyfrif. Mae hyn yn hanfodol os ydynt am drwytho'r gwasanaethau â gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf, gan sicrhau bod y gwerthoedd a'r egwyddorion hynny yn llywio popeth y maent hwy a'u timau yn ei wneud. Mae rôl hanfodol i arweinwyr ar draws gofal cymdeithasol, ar bob lefel, i weithredu fel hwyluswyr a hyrwyddwyr, gan ychwanegu gwerth i weithwyr rheng flaen, a chreu diwylliant sy'n gwerthfawrogi canlyniadau dinasyddion. Mae'n rhaid i'r newid hwn mewn diwylliant arweinyddiaeth genedlaethol rymuso timau i symud oddi wrth ddim ond gallu cyflawni'r Ddeddf fel bargaen yn unig, a thuag at allu a rennir i wella canlyniadau go iawn.

85. **Fel cam ymarferol, dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth i gydlynu'r gwaith o ddatblygu set genedlaethol o egwyddorion dylunio, yn seiliedig ar y Ddeddf, i rymuso arweinwyr i gefnogi cydgynhyrchu'n rhwydd ar ben blaen y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Byddai hyn yn galluogi arweinwyr ledled Cymru i gydweithio'n gyfartal gyda gweledigaeth a rennir y gellir rheoli diwylliant sefydliadol a darparu gwasanaethau yn ei herbyn.**
86. Unwaith y bydd yr 'egwyddorion dylunio' wedi cael eu sefydlu, dylai fod gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth rôl i'w chwarae yn y gwaith o adolygu a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trawsnewid yn barhaus ledled Cymru, gan gefnogi'r newid parhaus mewn diwylliant er mwyn i weithwyr rheng flaen a dinasyddion gael sgysiau 'beth sy'n bwysig' go iawn.
87. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth chwarae rhan weithredol yn y gwaith o fonitro a thynnu sylw at unrhyw droi'n ôl tuag at wasanaethau a ddarperir mewn systemau mwy traddodiadol, yn hytrach na'r rhai sy'n grymuso'r rhai ar y rheng flaen.
88. **Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth sicrhau bod dinasyddion wrth galon pob penderfyniad, gan gynnwys cydgynhyrchu'r egwyddorion dylunio newydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa fod yn fodlon bod lleisiau dinasyddion, gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymunedol yn cael eu cynnwys ar bob lefel, o gynllunio gwasanaethau i adolygu, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gyda chydbwysedd rhwng cymesuredd lleisiau proffesiynol a lleisiau cymunedol yn y gofod dylunio.**
89. Mae'r newid yn yr 'egwyddorion dylunio', gan gynnwys atebolrwydd i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth am oruchwylio rhaglen drawsnewid genedlaethol dros amser, yn ganolog os ydym am newid y ffordd y mae'r system gofal cymdeithasol bresennol yn gweithio a grymuso'r gweithlu o ddifrif, y dinasyddion a'r sector ehangach o ddarparwyr amhrisiadwy a'r gwasanaethau cymunedol sy'n eu cefnogi.

Mantais ehangach sgysiau 'beth sy'n bwysig'

90. Nid i'r unigolyn sydd angen gofal a chymorth yn unig y mae'r sgysiau am 'beth sy'n bwysig' o fudd. Mae iddynt fantais ehangach hefyd o ran darparu gwybodaeth ar gyfer asesiadau o anghenion ar lefel y boblogaeth a chynllunio'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Gallant hefyd fod yn gyfryngau gweithredol i newid diwylliant, oherwydd pan gânt eu gwneud yn iawn, gallant alluogi unigolion a gweithwyr gofal cymdeithasol i brofi mor wirioneddol rymusol ac ymgysylltiol y gall cydgynhyrchu gofal a chymorth deimlo. Bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i'r newid diwylliant a ragwelir yn yr adroddiad hwn wreiddio a lledaenu, ond byddai'n cael ei hwyluso'n fawr pe bai gan weithwyr proffesiynol yr amser i gynnal a phrofi sgysiau 'beth sy'n bwysig' go iawn.

91. **Gyda hynny mewn golwg, dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), i gynnal darn o ymchwil i ganfod pa adnoddau fydd eu hangen i ganiatáu cynnal sgysiau 'beth sy'n bwysig' yn llawn ac yn briodol ledled Cymru. Ar sail yr ymchwil, dylid sicrhau bod y cyfryw adnoddau ariannol ag sydd eu hangen ar gael, fel y gellir gweithredu yn dilyn hynny.**
92. Mae cydgasglu data o sgysiau 'beth sy'n bwysig' ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yn hanfodol ar gyfer cynllunio a datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol, yn ogystal â mesur digonolrwydd y ddarpariaeth bresennol. Fel gyda phob system ar gyfer cydgrynhoi data, nid yw'r wybodaeth sy'n dod allan ond cystal â'r hyn a gafodd ei fwydo i mewn. Felly os nad yw sgysiau 'beth sy'n bwysig' yn cofnodi gwir anghenion pobl yn gywir (yn hytrach, dim ond yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei ddarparu, a thicio blychau i ddweud p'un a yw ar gael ai peidio), ni allwn obeithio cael y wybodaeth y mae arnom ei hangen i gynorthwyo gwelliant pellach.
93. **Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, CLILC, a grwpiau sy'n cael eu harwain gan ddinasyddion, i drafod, cytuno a sefydlu dull cenedlaethol o gofnodi sgysiau 'beth sy'n bwysig' yn gywir.**
94. **Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth hefyd weithio gydag ADSS Cymru, CLILC a phartneriaid eraill, i sefydlu un system TG Genedlaethol gyffredin ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn bosibl cofnodi sgysiau 'beth sy'n bwysig' yn syml ac yn gywir. Wrth ddatblygu system o'r fath, dylai fod yn cael ei chydgynhyrchu gyda staff rheng flaen, fydd yn defnyddio'r system o ddydd i ddydd.**
95. Rhaid i'r system hon fedru cofnodi manylion achosion lle nad oes modd cwrdd ag anghenion unigolyn, a'r rheswm pam mae hyn yn wir, gan y bydd cydgrynhoi 'bylchau' yn cynorthwyo gwelliant yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac yn galluogi'r sefydliad perthnasol i weithredu ar y bylchau hynny a/neu nodi lle mae angen rhagor o fuddsoddiad ariannol.
96. **Mae'r grŵp yn awgrymu y dylai'r pecyn cymorth presennol ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth gael ei newid am fodel mwy cywir sy'n adlewyrchu 'angen' mewn ffordd ystyrlon. Dylai hyn ystyried y gallu i ddefnyddio data a gasglwyd o'r cofnod cywir newydd o sgysiau 'beth sy'n bwysig', ochr yn ochr â data ar niferoedd poblogaeth a chymysgedd demograffig mewn ardal Awdurdod Lleol. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i drafod, cytuno a rhoi'r broses newydd hon ar waith.**

5. FFURFIO PARTNERIAETH YN LLEOL O GWMPAS YR UNIGOLYN SYDD ANGEN CYMORTH

97. Bu'r Grŵp Arbenigol yn ystyried llawer o dystiolaeth ynghylch y profiadau a gafwyd pan oedd angen i fwy nag un sefydliad chwarae rhan mewn darparu gofal, a all arwain at rwystredigaeth a chanlyniadau llai na'r gorau.

98. Mae anghenion llesiant a gofal pobl yn aml yn gofyn am fewnbwn gan lawer o gydweithwyr y tu hwnt i wasanaethau gofal cymdeithasol. Er enghraifft: addysg, tai, gwasanaethau iechyd y cyhoedd, a gwasanaethau gofal sylfaenol (gan gynnwys Meddygon Teulu a CAMHS). Mae llawer o enghreifftiau o fodolau gofal cymdeithasol llwyddiannus a ystyriwyd gan y Grŵp Arbenigol yn cyfeirio at yr angen i allu darparu gwasanaethau di-dor ar lawr gwlad i gwrdd ag anghenion poblogaethau lleol. Byddai'r Grŵp Arbenigol yn cytuno bod gwaith partneriaeth cadarn ac effeithiol ar lefel leol yn hollbwysig os ydym am wireddu'r weledigaeth o Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru sy'n cyflawni'r Ddeddf yn wirioneddol.

99. Ceir enghreifftiau o waith partneriaeth ac ymarfer rhagorol ledled Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pan fydd y partneru yn mynd o'i le i'r dinesydd, gall fod yn hynod ddigalon. Felly, bu'r Grŵp Arbenigol hefyd yn ystyried yr hyn sy'n atal gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ar lefel ddiwylliannol genedlaethol ac sy'n peri i drefniadau partneriaeth lleol golli'r ffordd. Ymddengys bod problemau gyda gweithio mewn partneriaeth yn aml yn codi o ganlyniad i ystyriaethau ariannol, gwahanol ddulliau o reoli risg, a gwahaniaethau mewn diwylliant sefydliadol.

100. Mae hyn i gyd yn amlygu'r ffaith y gall problemau godi i'r dinesydd a'n gweithlu gofal cymdeithasol oherwydd bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn cael eu gyrru i edrych ar ofal drwy lens pwysau sefydliadol neu ariannol ehangach, yn hytrach na bod yn gwbl rydd i gefnogi safbwynt y person sydd angen cymorth. Oddi wrth y dystiolaeth a dderbyniwyd ac a adolygwyd gan y grŵp, mae'n amlwg pan fydd y rhwystrau hyn yn codi eu bod yn achosi rhwystredigaeth i bob parti.

101. Bu'r Grŵp yn trafod llawer o enghreifftiau o ddulliau cydgysylltiedig llwyddiannus sy'n datblygu yng Nghymru ar lefel ardal, lle mae gweithwyr proffesiynol a darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd er budd dinasyddion. Mae angen annog modelau llwyddiannus, eu galluogi, eu harchwilio a, lle maent yn llwyddiannus, eu hariannu a'u hehangu ar draws Cymru gyfan, eu pobi i'r fframwaith cydlynol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol o dan y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

102. Y nod ddylai fod grymuso a galluogi'r rheiny ar lefel leol i gydweithio'n ddi-dor i ddarparu'r gofal a'r cymorth gofynnol, ni waeth pa sefydliad sy'n eu cyflogi. Mae angen i "ddulliau/trefniadau partneriaeth leol" o'r fath fod yn seiliedig ar werthoedd cyffredin y Ddeddf, er mwyn cyflawni canlyniadau ar lefel y boblogaeth a'r unigolyn, a mynd i'r afael â sgysiau 'beth sy'n bwysig', yn hytrach na chael eu gyrru i ymdrin â phwysau sefydliadol. Dylai'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth

Cenedlaethol newydd gefnogi'r sector gofal cymdeithasol ehangach i adeiladu ymhellach ar y profiadau gorau o'r gwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau sydd eisoes yn mynd rhagddo.

Atebolrwydd ar lefel partneriaeth leol

103. Roedd atebolrwydd am ddarparu gofal cymdeithasol yn fater a ystyriwyd yn helaeth gan y Grŵp Arbenigol. Nododd y Grŵp, er ei bod yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad blynyddol a bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol, nid yw'r naill na'r llall o'r prosesau hyn yn bodloni'r mater o atebolrwydd yn llawn. Teimlai'r Grŵp fod sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn rhoi cyfle i ystyried adeiladu mwy o eglurder a llinellau atebolrwydd cryfach efallai i mewn i ofal cymdeithasol ledled Cymru.

104. Gweithlu amlasiantaethol wedi'i rymuso sy'n gweithredu ar lefel ardal, dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn eu tro fod yn gyfrifol am weithredu ar yr hyn sydd angen ei wneud i ddymchwel y rhwystrau sy'n atal y partneriaethau ardal rhag gwneud eu gwaith yn effeithiol.

105. Er mwyn sicrhau atebolrwydd am gwrdd ag anghenion gofal a chymorth poblogaethau lleol o dan y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, mae'r Grŵp yn awgrymu y dylai fod gan Awdurdodau Lleol rôl wedi'i mynegi'n glir i reoli perfformiad trefniadau partneriaeth leol, mewn perthynas â'r graddau y mae'r partneriaethau hynny'n gallu cwrdd yn effeithiol ag anghenion a amlinellwyd mewn sgysiau 'beth sy'n bwysig'.

Sefydlu Diwylliant 'dolen ddysgu'

106. Dylai Awdurdodau Lleol sefydlu diwylliant dolen ddysgu ar draws y maes Gofal Cymdeithasol cyfan, gan symud i ffwrdd oddi wrth unrhyw ofn a ganfyddir o gael bai a methiant, a thuag at ddiwylliant sy'n cefnogi gwelliant parhaus yn agored a dysgu ar draws y sector gofal cymdeithasol cyfan.

107. Dylai'r ddolen ddysgu ganiatáu i brofiad defnyddiwr unigol neu weithiwr gofal cymdeithasol o wasanaeth sy'n llai na'r gorau fwydo'n ôl yn uniongyrchol i'r sawl sy'n gallu sicrhau gwelliant yn y gwasanaeth, a hwythau wedyn adrodd yn ôl ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud (neu pam na ellir gwneud gwelliannau). Yna gellir bwydo rhwystrau diwylliannol a nodir ar draws y sector cyfan i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth ar gyfer sgwrs genedlaethol ehangach ynghylch y ffordd y gellir eu datrys, tra'n parhau yn driw i egwyddorion y Ddeddf.

108. Bydd y ddolen ddysgu hon yn helpu pobl rhag gorfod troi at y systemau cwynion pan nad ydynt yn fodlon ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

109. Dylai Awdurdodau Lleol a phartneriaid allu adrodd yn onest ar eu perfformiad cyfunol, yn seiliedig ar ddiwylliant 'dolen ddysgu'. Dylid dychwelyd

yr adroddiadau hyn i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth i lywio penderfyniadau cynllunio ac adnoddau yn y dyfodol yn onest, a chefnogi'r nod barhaus o wella'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yng Nghymru.

Ymreolaeth, Atebolrwydd a Chyllid Awdurdodau Lleol

110. Fel rhan o'i drafodaethau, bu'r Grŵp Arbenigol yn ystyried a ddylai fod mwy o rôl i forgeisi/grantiau penodol i sicrhau bod cyllid yn cael ei drosglwyddo ymlaen o Awdurdodau Lleol i wasanaethau gofal. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd diogelu democratiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn ogystal â'r beichiau ychwanegol a gynhyrchir gan grantiau penodol a'r potensial sylweddol i 'chwarae'r' system.

111. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach i oruchwylio a chefnogi datblygiad model ariannu cenedlaethol clir i bawb ar gyfer yr holl adnoddau ariannol ar gyfer gofal a chymorth.

112. Argymhellir, lle mae adnoddau ariannol craidd yn cael eu sianelu drwy Awdurdodau Lleol, mai hwy ddylai fod yr asiantaeth arweiniol i ddyrannu cyllidebau ar draws partneriaethau ardal, a thrwy hynny sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn parhau i fod y partner arweiniol o ran darparu gofal cymdeithasol o dan y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol newydd.

113. Byddai hyn yn cael gwared ar y dryswch presennol ynghylch y seilwaith sy'n gysylltiedig ag adrodd ar wahanol ffrydiau ariannu lluosog, ac ymhen amser byddai'n helpu i symleiddio dulliau adrodd. Mae potensial i hyn leihau biwrocraetiaeth ddiangen yn y system, a thrwy hynny ryddhau adnoddau tuag at ofal go iawn yn hytrach na phrosesau gweinyddol.

114. Ar yr un pryd, gellid creu fframwaith atebolrwydd o allbynnau a disgwyliadau i gyd-fynd â'r model ariannu gofal cymdeithasol Cenedlaethol. Dylid dal Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill a ariennir yn atebol am gyflawni allbynnau a disgwyliadau, yn erbyn egwyddorion y model ariannu cenedlaethol. Felly, dylid adeiladu adborth, ar ba mor effeithiol yw'r model ariannu o ran darparu adnoddau, i mewn i'r broses fonitro barhaus.

Gofal Iechyd Parhaus

115. Mae Gofal Iechyd Parhaus (GIP) wedi cael ei ddyfynnu'n uniongyrchol yn gyson gan ddinasyddion, asiantaethau gofal cymdeithasol, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd fel rhywbeth sy'n codi rhwystrau anfwriadol o ran galluogi gweithio integredig gwirioneddol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymorth cymhleth.

116. Unwaith y bydd pob gofal i'w gael am ddim lle a phan fo'i angen, bydd GIP yn anochel yn llai o broblem. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Arbenigol yn rhagweld y gallai fod dadleuon o hyd

ynghylch pa sefydliad sy'n talu, ac mae'r system bresennol yn ddigon niweidiol i fod angen gweithredu ar unwaith, o ystyried y bydd 'am ddim lle a phan fo'i angen' yn cymryd peth amser i gael ei wireddu'n llawn.

117. Dylai'r dull polisi GIP presennol fel ag y mae gael ei ddileu o'r system gofal cymdeithasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth flaenoriaethu gwaith gyda CLILC, ADSS Cymru, a Chyddfederasiwn GIG Cymru i nodi amserlen ar gyfer dirwyn y fframwaith GIP presennol i ben yn raddol.

6. BUDDSODDI MEWN ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR

118. Mae'n ymddangos i'r Grŵp Arbenigol fod gofal cymdeithasol, dros y blynyddoedd, wedi colli'r gallu i bwmpio buddsoddiad sylweddol cychwynnol i mewn i wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, yn bennaf oherwydd nad yw'r cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol wedi cyd-fynd â'r galw. Mae hyn wedi golygu diffyg buddsoddiad mewn hyrwyddo gwell ansawdd bywyd, annibyniaeth hirach, ac osgoi dirywiad mewn lles fel bod angen am ofal mewn argyfwng.
119. O ganlyniad i gymysgedd o'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, a thwf cadarnhaol modelau gofal gwahanol a ddarperir drwy'r trydydd sector, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol, mae llawer o'r gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar ehangach yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan sefydliadau y tu allan i wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r rhain yn aml yn cael eu hariannu drwy grantiau ariannu â therfyn amser a phrosesau comisiynu tymor byr. Canlyniad hyn yw nad oes ar hyn o bryd strategaeth hirdymor glir o dan berchnogaeth genedlaethol ar gyfer cynaliadwyedd a thwf y gwasanaethau atal presennol.
120. Ni ellir atal pob argyfwng, ond gall atal a chynllunio leihau'n sylweddol yr adegau pan fo angen gofal a chymorth mewn argyfwng. Os yw gofal cymdeithasol i symud oddi wrth reoli argyfwng ac atal dirywiad, rhaid cael buddsoddiad priodol ac ymrwymiad ariannu tymor hwy i gefnogi dull strategol hirdymor o adeiladu gwasanaethau ataliol ar lefelau cymunedol lleol.
121. Bydd angen cynorthwyo Awdurdodau Lleol i gynyddu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol. Dylid gofyn iddynt gofnodi'r balans gwariant a briodolir i wasanaethau ataliol bob blwyddyn fel y gellir monitro a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r disgwyliad hwn.

122. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth fonitro Awdurdodau Lleol am y gyfran gymharol o'u cyllideb sy'n cael ei gwario'n flynyddol ar atal ac ymyrryd yn gynnar a dwyn ynghyd y wybodaeth hon ar gyfer blaenoriaethau ariannu ar lefel genedlaethol a chynorthwyo gyda rhwystrau diwylliannol ledled Cymru a all fod yn effeithio arnynt.

123. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i lefel y gwariant ar ofal cymdeithasol ataliol a gomisiynwyd (o gymharu â chyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol) fesul ardal Awdurdod Lleol, yn flynyddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

124. Fodd bynnag, ni fydd ailgyfeirio gwariant ynddo'i hun yn unioni materion gan na fydd hyn ond yn gadael llai o adnoddau i'w gwario ar ddiwallu anghenion y rhai sydd eisoes mewn argyfwng.

125. Dylai Llywodraeth Cymru felly ystyried ychwanegu rhagor o adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol.

Rôl y Trydydd Sector, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol

126. Mae'r Ddeddf yn hybu mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol fel mecanwaith ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn cymunedau lleol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu na fu cynnydd sylweddol yn y mathau hyn o fodolau gofal hyd yma, yn aml oherwydd y diffyg cyllid sydd ar gael a'r ffaith ei bod yn cymryd amser i greu a datblygu'r modelau darparu gofal newydd hyn.
127. Lle mae modelau'n bodoli, mae tystiolaeth i ddangos y gallant yn aml fod yn fwy hyblyg a chreadigol a chynnig cyfle i archwilio ffyrdd gwahanol o weithio mewn partneriaeth gyda dinasyddion. Mae llawer yn cael eu harwain gan ddinasyddion, ac mae llawer yn defnyddio adeiladau cymunedol presennol fel adnodd.
128. Bydd rôl gwasanaethau yn y gymuned (gan gynnwys cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a'r trydydd sector ehangach) yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau ataliol unwaith eto'n dod yn brif ffocws ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yn ystod y newid hwn o ran diwylliant a chyllid.
- 129. Felly mae'r grŵp yn awgrymu bod y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo rôl y modelau hyn ar draws y sector gofal cymdeithasol ehangach, p'un a ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol drwy wasanaethau cyhoeddus neu'n annibynnol, ac yn monitro lefel y cyllid sy'n cael ei wario ar wasanaethau ataliol a arweinir gan ddefnyddwyr/a gydgynhyrchir gyda defnyddwyr.**
130. Mae'r Grŵp yn credu y bydd yn bwysig i brosesau comisiynu gynnwys ymgysylltu cydgynhyrchol ystyrlon â rhanddeiliaid gan gynnwys dinasyddion, gofalwyr di-dâl, cynrychiolwyr y trydydd sector a darparwyr. Dylai gynnwys egwyddorion arfer da sy'n galluogi mentrau cydweithredol a arweinir gan ddefnyddwyr a gwerthoedd mentrau cymdeithasol i ffynnu ochr yn ochr â gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol.
- 131. Er mwyn sefydlu newid gwirioneddol tuag at ofal ataliol yn y system, dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth oruchwylio'r broses o roi'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol ar waith.**

7. SYMUD TUAG AT OFAL AM DDIM

Darparu gwasanaethau am ddim lle a phan fo'u hangen

132. Mae llywodraethau olynol yng Nghymru wedi mabwysiadu agwedd flaengar tuag at ddarparu gofal cymdeithasol. Mae'r ymrwymiad i ddarparu gofal a chymorth am ddim lle a phan fo'i angen yn parhau â'r dull hwn. Mae'r Grŵp Arbenigol yn croesawu'r ymdrech hon tuag at system sy'n deg a chyfiawn i bawb, sy'n lleihau cymhlethdod, ac sy'n cyfrannu at gael gwared ar y rhwystrau ariannol a wynebir gan ddinasyddion wrth geisio llesiant a chael byw'n annibynnol.
133. Fodd bynnag, mae'r capasiti yn y gwasanaeth presennol yn amlwg mewn argyfwng ac ni ellir anwybyddu'r ffaith fod angen buddsoddiad ariannol ar fyrder. Mae'n angenrheidiol sicrhau gweithlu sy'n cael ei dalu'n briodol, a hefyd yn hanfodol os ydym am ariannu'r gwasanaethau sydd wir eu hangen i gwrdd ag anghenion pobl, yn awr ac yn y dyfodol.
134. Wrth greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, mae'n rhaid i gynladwyedd fod yn ganolog iddo. Rhaid inni greu system a all addasu i gynnal cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â'r rheiny sydd angen gofal ar hyn o bryd. Bydd hyn yn gofyn am feddwl hirdymor, a buddsoddiad hirdymor, sy'n debygol o fod dros gyfnod o 10 mlynedd o leiaf, ac er mai dim ond hyd 2024-25 y mae cynlluniau ariannu Llywodraeth Cymru yn ymestyn ar hyn o bryd, bydd angen i hirhoedledd y weledigaeth barhau i fod yn flaenoriaeth ariannol a gwleidyddol barhaus os ydym am gyflawni newid cynaliadwy gwirioneddol.
135. Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau lefel briodol o gyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i sicrhau y gall gwrdd ag anghenion pobl yn wirioneddol a'i fod yn gynaliadwy i'r dyfodol. Mae hyn yn golygu gallu rhagweld ac ymateb yn ddigonol i batrymau demograffeg, angen a galw yn y dyfodol.
136. **Mae'r Grŵp Arbenigol yn awgrymu ein bod yn cynnal 'sgwrs genedlaethol' dryloyw a gonest am y cyllid sydd ei angen i ddarparu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, sy'n trafod yn agored a ydym ni, bobl Cymru, yn fodlon talu amdano. Yn sylfaenol i'r mater hwn, wrth gwrs, yw a yw Llywodraeth Cymru yn gallu ail-flaenoriaethu buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol yn lle gwasanaethau eraill, ac os na, a yw'n dymuno ystyried ffyrdd eraill o ariannu diwygio gofal cymdeithasol, gan gynnwys (o bosibl) defnyddio pwerau treth incwm datganoledig. Os na ellir sianelu incwm cynyddol i'r system yn un o'r ffyrdd hyn, yna bydd llawer o'r diffygion presennol yn parhau ac yn gwaethygu.**

Tegwch cyfundrefnau codi tâl

137. Wrth ystyried ffyrdd o wneud gwasanaethau'n rhad ac am ddim lle a phan fo'u hangen, a'r dilyniant posibl, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r effeithiau dosraniadol y gall pob un math o drefn codi tâl eu cael. Bydd rhai grwpiau o bobl yn elwa mwy nag eraill oddi wrth newidiadau i'r drefn codi tâl bresennol. Fodd bynnag, mae effaith ddosraniadol gyffredinol diwygio taliadau hefyd yn dibynnu ar y ffordd y caiff y refeniw ychwanegol angenrheidiol ei godi (er enghraifft, mae treth incwm y DU yn gynyddol o ran incwm).
138. Mynegwyd pryder gan aelodau'r Grŵp pe bai cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn syrthio'n fyr o'r hyn oedd ei angen i gyflawni ei amcanion, y gallai hyn gynyddu'r baich ar dalwyr y dreth gyngor yn anuniongyrchol. Mae'r dreth gyngor yn dreth atchweliadol mewn perthynas â gwerth eiddo ac incwm, a gallai felly fod yn ffordd lai dymunol o godi refeniw na threthiant cyffredinol.
- 139. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn nodi'n ddigonol nac yn gywir beth allai cyfanswm y diffyg fod mewn buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol. Felly, mae'r Grŵp yn awgrymu bod y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn cynnal gwaith ymchwil gyda CLILC a Chyddfederasiwn y GIG i asesu'r lefel ofynnol o fuddsoddiad, er mwyn llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol.**

Ystyried dewisiadau codi tâl

140. Yn unol â'i gwmpas a'i Gylch Gorchwyl, rhoddodd y Grŵp Arbenigol ystyriaeth benodol i'r ffordd y gellid darparu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol am ddim lle a phan fo'i angen.
- 141. Mae'r Grŵp yn argymhell, fel cam cyntaf tuag at ofal sydd am ddim lle a phan fo'i angen, y dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at drefn codi tâl lle mae'r rhan fwyaf o ofal dibreswyl yn cael ei ddarparu am ddim mewn lleoliad dibreswyl. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth gyntaf oherwydd y gall taliadau am ofal dibreswyl achosi caledi ariannol i bobl ac effeithio ar eu hurddas a'u lles.**
- 142. Fodd bynnag, gan gydnabod y blaenoriaethau sy'n cystadlu am fuddsoddiad (yn fwyaf arwyddocaol, cydnabyddiaeth ariannol fwy digonol i'r gweithlu gofal cymdeithasol) mae'r Grŵp Arbenigol yn awgrymu mabwysiadu dull graddol o ddiwygio taliadau.**

Ystyriodd y Grŵp ddau brif ddewis o ran symud tuag at drefn codi tâl lle mae'r rhan fwyaf o ofal dibreswyl yn cael ei ddarparu am ddim mewn lleoliad dibreswyl:

	Dewis 1	Dewis 2
Cam gweithredu	Gostwng y cap o £100/wythnos mewn lleoliad dibreswyl i ddim neu, fel cam cyntaf, i lefel ganolraddol.	Dod â gwasanaethau gofal nad ydynt yn rhai personol* nad ydynt wedi eu cynnwys ar hyn o bryd yn y cap wythnosol yn y sector gofal cartref o dan y trefniadau codi tâl wedi ei gapio AC WEDYN gostwng y cap o £100/wythnos mewn lleoliad dibreswyl i ddim, neu lefel ganolraddol arall
Buddiolwyr	Mae'r dewis hwn yn fuddiol i'r rheiny sydd ar hyn o bryd yn talu hyd at £100 yr wythnos am wasanaethau gofal dibreswyl sydd wedi eu cynnwys yn y cap. Y rheiny sy'n talu'r swm mwyaf (£100) fyddai'n gweld y budd mwyaf – oddeutu 20% o ddefnyddwyr gwasanaeth	Y rhai fyddai'n elwa gyntaf o hyn fyddai'r rheiny sy'n talu mwy na £100/yr wythnos am wasanaethau y tu allan i'r cap.
Sylwadau	Mae'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau heb eu cynnwys yn y cap ar hyn o bryd mewn lleoliad dibreswyl yn aros yr un fath	Mae'r dewis hwn yn cynnwys dewis 1, ond yn gohirio ei weithredu hyd nes y bydd gwasanaethau heb fod yn rhai personol yn y sector gofal cartref wedi cael eu dwyn o dan daliadau wedi eu capio.
Amcangyfrif o'r gost	Yn dibynnu ar lefel y cap a bennir, y costau a amcangyfrif yw: £0/yr wythnos**: £76-£126 miliwn £25/ yr wythnos: £57-£94.5 miliwn £50m/ yr wythnos: £8-£63 miliwn £75/ yr wythnos - £19-£31.5 miliwn	Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhagdybio cynnwys Dewis 1 ar lefel £0/yr wythnos, sef gwneud y gwasanaethau sydd ar hyn o bryd wedi eu cynnwys yn y cap i fod am ddim: £0/yr wythnos: £167-£218miliwn***

*Mae amcangyfrifon y costau a gyflwynir yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai dim ond 'gwasanaethau gofal personol' sydd wedi eu capio. Y diffiniad o 'gwasanaethau gofal personol' a ddefnyddiwyd i gyrraedd amcangyfrifon y costau yw diffiniad yr Alban. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cap presennol ychydig yn fwy eang na'r diffiniad hwn.

**Sylwer mai dyma gost amcangyfrifedig gofal personol dibreswyl rhad ac am ddim.

*** Sylwer mai dyma gost amcangyfrifedig gwneud y gwasanaethau sydd ar hyn o bryd wedi eu cynnwys yn y cap yn rhad ac am ddim.

143. Mae'r Grŵp hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at gyfundrefn codi tâl lle mae costau gofal (ac eithrio costau llety) yn cael eu darparu am ddim mewn lleoliad preswyl. Fodd bynnag, gan gydnabod y blaenoriaethau fydd o bosibl yn cystadlu am fuddsoddiad fel y trafodwyd uchod, efallai y bydd rhaid cyflwyno hyn fesul cam.

Bu'r Grŵp yn ystyried pedwar dewis o ran symud at gyfundrefn codi tâl lle mae costau gofal (ac eithrio costau llety) yn cael eu darparu am ddim mewn lleoliad preswyl:

Dewis	Disgrifiad	Cost	Sylwadau
Dewis 1	Mae'r wladwriaeth yn gwneud cyfraniad sefydlog tuag at gostau hunangyllidwyr sy'n derbyn gofal mewn lleoliad preswyl. Gellid cynyddu swm y cyfraniad nes ei fod yn dybiannol gyfwerth â'r costau (ac eithrio costau llety) a delir gan breswylwyr cartrefi gofal.	Amcangyfrif o'r costau: £50/yr wythnos - £15 miliwn; £100/ yr wythnos - £31 miliwn; £150/ yr wythnos £47 miliwn (mae amcangyfrifon y gost ar gyfer cyfraniadau o £100 a £150 o adroddiad LE Wales, a'r gweddill wedi eu rhyngosod yn llinol).	Byddai hyn o fudd i hunangyllidwyr drwy leihau'r costau y byddant yn eu talu. Fodd bynnag, gallai'r rheiny ag anghenion gofal drud, dros gyfnod estynedig, ddal i wynebu costau oes uchel iawn.

Dewis	Disgrifiad	Cost	Sylwadau
Dewis 2	Mae'r wladwriaeth yn talu costau (ac eithrio costau llety) hunangyllidwyr mewn lleoliad preswyl.	Amcangyfrif o'r costau: £55-£66 miliwn – gan ragdybio bod Awdurdodau Lleol yn gwneud cyfraniad wythnosol sefydlog i ddarparwyr gofal i dalu costau gofal personol (£210 (uchel) neu £177 (isell)).	Byddai hwn yn gyfystyr â gofal am ddim a dyma fyddai'r dewis drutaf.
Dewis 3	Dechrau drwy ddarparu gofal am ddim (ac eithrio costau llety) i hunan-gyllidwyr â dementia ac ehangu'r cynnig i'r holl breswylwyr yn ddiweddarach.	Nid yw'r amcangyfrif o'r costau yn hysbys ar hyn o bryd. Gan gymryd amcangyfrif cymdeithas Alzheimer fel enghraifft ar gyfer y nifer o breswylwyr cartref gofal a allai fod yn gymwys, efallai na fyddai'r costau yn rhy annhebyg i Ddewis 2.	Nododd yr Is-grŵp yr anhawster (amhosibl ei ddatrys o bosibl) o fesur a yw anghenion gofal y preswylwyr i'w priodoli i raddau helaeth i ddementia. Gallai'r dewis fod yn anymarferol a byddai'n creu sail i her gyfreithiol sylweddol.

Dewis	Disgrifiad	Cost	Sylwadau
Dewis 4	Preswylwyr hunan-gyllidol cartref gofal a defnyddwyr gofal yn y cartref yn derbyn eu gofal (ac eithrio costau llety) wedi ei dalu gan y wladwriaeth ar ôl nifer penodedig o wythnosau. Gellid adolygu nifer yr wythnosau cymwys a'i leihau dros amser.	Nid yw'r amcangyfrif o'r costau yn hysbys ar hyn o bryd; gellid newid y gost gyfan drwy amrywio'r cap (nifer yr wythnosau cymwys).	Ar wythnos0, byddai hwn yr un fath â Dewis 2 i bob pwrpas. Hwn yw'r dewis tebycaf i gynnig Dilnot yn Lloegr (targedu rhan fwyaf y cymorth at y rhai sy'n wynebu costau aruthrol i ddechrau), gyda'r posibilrwydd o leihau'r cap i ddim dros amser i ddarparu gofal am ddim i bawb.

Ystyriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi tâl

144. Mae hanes codi tâl am ofal cartref wedi'i wreiddio yn addewid Maniffesto Llywodraeth Cymru i gyflwyno gofal cartref am ddim. Ni chafodd hyn ei ddeddfu, ond cyflwynwyd pecyn codi tâl tecach yn 2007 a oedd yn fwy hael na'r hyn oedd i'w gael yn Lloegr. Yn 2011 cyflwynwyd uchafswm tâl wythnosol o £50 ond, yn ôl pob tebyg oherwydd pwysau ariannol, roedd hyn wedi codi i £100 erbyn 2020. Mae hon yn ystyriaeth berthnasol y bydd Llywodraeth Cymru efallai yn dymuno ei hystyried pan fydd yn penderfynu ym mha drefn y dylid gweithredu unrhyw ostyngiadau wrth godi tâl am ofal.
145. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y risg o ryngweithio posibl â'r system budd-daliadau a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, efallai y byddai dull taprog yn ei gwneud hi'n haws rheoli'r galw sy'n cael ei ddal i lawr ac o bosibl liniaru rhyngweithio o'r fath.
146. Yn dibynnu ar y dewisiadau a ddewisir, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru gael diffiniad cytûn o 'ofal personol', nad yw'n bodoli ar hyn o bryd yn neddfwriaeth Cymru ac a allai gyflwyno cymhlethdod ychwanegol. Byddai'r Grŵp Arbenigol yn argymhell gwneud darn o waith mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol i gytuno ar hyn os/pan fo angen.

147. Mae'r Grŵp yn awgrymu y dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â CLILC, Cydffederasiwn y GIG a darparwyr, i nodi beth ddylai'r gyfradd ffioedd gofal fod. Dylid gosod hwn yn genedlaethol, a chael adnoddau priodol ar ei gyfer.

148. Mae'r Grŵp hefyd yn awgrymu y dylid eithrio costau llety o'r gyfradd ffioedd gofal. Mae'r gwahaniad hwn rhwng costau gofal a llety yn cydnabod ei bod yn ofynnol inni i gyd dalu am fwyd, cyfleustodau a thai yn ein cartrefi ein hunain waeth beth fo'n hanghenion gofal. Mae hefyd yn cydnabod y dylai unigolion fod yn rhydd i ddewis eu llety yn ôl eu dewis, waeth beth yw eu hanghenion gofal.

Yr angen am fwy o ddata

149. Tynnodd aelodau'r Grŵp Arbenigol sylw at nifer o feysydd lle mae angen ffynonellau data gwell neu fwy cywir er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau buddsoddi fydd yn anochel yn angenrheidiol. Er enghraifft: data ar y boblogaeth hunangyllido yng Nghymru; hyd arhosiad cyfartalog oedolion iau mewn cartrefi gofal; a'r cyfnod cyfartalog o amser y mae defnyddwyr yn derbyn gwasanaethau gofal cartref. Heb y wybodaeth hon mae'n anodd prisio cynigion i newid y trefniadau codi tâl yn gywir.

150. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod angen gwneud rhagor o waith cwmpasu data a byddai'n awgrymu bod y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn cydlynu'r gwaith i gefnogi'r nod hon.

151. Er bod yr adroddiad hwn yn sôn am amcangyfrifon cost ar gyfer rhai o'r dewisiadau ar gyfer codi tâl y gallai Llywodraeth Cymru fod yn dymuno symud tuag atynt yn awr, maent wedi eu seilio ar amcangyfrifon a wnaed gan LE Wales a'u bwriad yw rhoi arwyddion bras o'r gost. Mae'n bwysig bod cynigion manylach yn cael eu costio'n llawn mewn partneriaeth â'r ystod eang o randdeiliaid a fydd yn cymryd rhan yn y camau nesaf tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

152. Yn unol â hynny, mae'r Grŵp yn argymhell y dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth gomisiynu gwaith, mewn partneriaeth â CLILC a Chyddffederasiwn y GIG, i ganfod gwir gost gweithredu'r camau hynny yn yr adroddiad hwn fydd â chanlyniadau ariannol.

Rôl elw yn y system ofal

153. Fel y nodwyd uchod, bydd yn hanfodol i Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol gydnabod ac ystyried naws gwahanol fodolau gofal a'r gost ar draws sbectrwm llawn y ddarpariaeth, 'o'r crud i'r bedd'. Nododd y grŵp fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ymroi i hyrwyddo gwahanol fodolau darparu gwasanaethau ochr yn ochr â

gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a bod y rhain yn cael eu darparu a'u hariannu mewn gwahanol ffyrdd. Fel y cyfryw, bydd angen i unrhyw newidiadau ystyried y cydbwysedd presennol o ran hygyrchedd cyllid ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol a chymunedol, yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth a nodwyd.

154. Rhaid i bwysigrwydd llais a rheolaeth i ddinasyddion, er mwyn iddynt allu dewis y gofal a'r cymorth sy'n cyflawni eu canlyniadau llesiant orau, barhau i fod yn ganolog i ddarpariaeth gofal cymdeithasol a chynllunio ariannol. O ystyried yr effaith sylweddol y bydd unrhyw newidiadau i'r broses o wneud penderfyniadau yn y maes hwn yn ei chael ar y modelau darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru, teimlai'r Grŵp fod hwn yn fater allweddol ar gyfer ymgynghori'n ehangach â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod yr holl bartneriaid perthnasol yn cymryd rhan.

155. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mater elw yn y system ofal yn cael ei integreiddio i'r cynllun ymgynghori cyhoeddus ehangach ynghylch datblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, a bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu galluogi i gymryd rhan ynddo.

156. Fodd bynnag, gofynnwyd yn uniongyrchol i'r Grŵp Arbenigol yn y Cylch Gorchwyl a roddwyd i ystyried sut i gynyddu canran y ddarpariaeth gofal a ddarperir yn gyhoeddus, gan gynnwys rôl perchenogaeth llywodraeth leol a mentrau cydweithredol. Wrth gymryd camau ymarferol tuag at hyn, cydnabu'r Grŵp y gwaith oedd eisoes ar y gweill mewn perthynas â'r ymrwymiad presennol yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n cael ei yrru ymlaen o ran dileu elw allan o wasanaethau plant. Oherwydd cymhlethdod a natur y ddarpariaeth bresennol i oedolion, nid yw'n dilyn yn awtomatig y bydd yr un llwybr yn cael ei ddilyn ar gyfer gwasanaethau oedolion, ond ni allai'r Grŵp symud ymlaen â'u trafodaethau heb gydnabod bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo.

157. Bu'r Grŵp yn trafod yn arbennig y ffaith fod angen sicrhau bod y cydbwysedd rhwng capasiti a dewis yn cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y broses o ailgydbwyso, er mwyn sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chymorth yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen neu barhau i'w derbyn yn y ffordd y mae arnynt eisiau.

158. Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiwn penodol a godwyd yn y briff, mae rhai camau ymarferol y gellid eu cymryd i ailgydbwyso'r ddarpariaeth tuag at ddarpariaeth y sector cyhoeddus, er mwyn helpu i ehangu capasiti'n raddol. Dylai'r rhain gynnwys ehangu ffrydiau ariannu ar gyfer meithrin gallu a rhaglenni peilot mewn Awdurdodau Lleol ledled Cymru.

159. Gallai Llywodraeth Cymru gychwyn deialog ag awdurdodau lleol ynghylch ehangu'n raddol gapasiti darpariaeth uniongyrchol, yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion, tra'n cydnabod y Ddeddf yn bendant.

160. Gallai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa gyfalaf a referniw fyddai'n ehangu'n raddol, i ddarparu cyfleoedd i ddod â gwasanaethau yn ôl yn fewnol

pan fo angen, tra'n cydnabod y Ddeddf. Dylid ychwanegu hyn at setliad llywodraeth leol, a dylai fod yn ychwanegol at gynlluniau peilot Awdurdodau Lleol dethol ar gyfer darpariaeth uniongyrchol fewnol yn bennaf.

161. Mae cyfyngiadau cyllid, ymdrech tuag at fwy o effeithlonrwydd, a'r angen am fuddsoddiad, wedi ysgogi awdurdodau lleol dros amser i roi gwasanaethau ar gontract allanol. Yn erbyn y cefndir heriol hwn, mae sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector wedi ychwanegu arloesedd at y sector gofal ac mewn rhai achosion wedi bod yn gatalyddion ar gyfer newid buddiol.

162. Fodd bynnag, roedd y Grŵp yn cydnabod bod costau'n gysylltiedig â'r model presennol o gomisiynu a thendro gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol.

163. Yn y cyd-destun hwn, cydnabu'r Grŵp hefyd fod cynhyrchu elw yn codi cwestiynau sy'n berthnasol i'r ddadl ehangach ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er nad oedd yn rhan o Gylch Gorchwyl y Grŵp i gymryd rhan yn y ddadl hon yn ehangach, buont yn ystyried y mater o fewn cwmpas eu briff. Cytunai'r Grŵp y bydd eglurder ynghylch rôl elw, ac unrhyw enillion ar fuddsoddiad yn y sector, yn ystyriaeth allweddol yn y camau nesaf tuag at sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, os yw i gael gweledigaeth glir yn greiddiol iddo.

164. Wrth ystyried camau ymarferol tuag at ganran uwch o wasanaethau a ddarperir yn gyhoeddus, bydd angen deall cost y system bresennol ac asesu pa gyfleoedd neu golledion y gellid eu cyflwyno drwy ailfuddsoddi

165. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i feintioli lefelau gwariant a gollwyd i'r sector drwy elw, mecanwaith comisiynu, ar y ddwy ochr, elw a wneir gan ecwiti preifat ar gyfleusterau gofal, ac ar gynnal a chadw diwydiant rheoleiddio i fonitro darparwyr.

166. Gellir nodi hefyd y gallai'r camau ymarferol a awgrymwyd gan y Grŵp Arbenigol mewn perthynas â thâl y gweithlu (yn enwedig strwythur tâl safonol ar gyfer yr holl weithwyr) arwain at gynnydd graddol yn narpariaeth uniongyrchol yr Awdurdod Lleol, gan y bydd un o'r ysgogwyr allweddol ar gyfer defnyddio ffynonellau allanol wedi cael ei ddileu.

Y CAMAU NESAF

167.I grynhoi, bydd Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru yn gwireddu dyfodol lle

- Bydd plant, pobl ifanc ac oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth yn cael eu grymuso i leisio'r hyn sy'n bwysig iddynt ac yn cael adnoddau i wella eu lles a chael rheolaeth yn eu bywydau bob dydd a'u dyheadau;
- Bydd gweithlu gofal cymdeithasol medrus, sy'n cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn derbyn adnoddau, yn cael ei rymuso i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion a chymunedau, ar y cyd â hwy, ac yn cael ei wobrwyo'n briodol am wneud hynny;
- Bydd diwylliant arweinyddiaeth gyfiawn a theg yn grymuso dinasyddion, cymunedau a'r gweithlu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig, ac yn atebol am well lles drwy arloesi, cydgynhyrchu a dulliau sy'n canolbwyntio ar berthynas;
- Bydd gwasanaethau gofal a chymorth yn derbyn digon o adnoddau, yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar y gymuned, yn cael eu cyfeirio gan yr unigolyn ac am ddim lle cânt eu darparu.

168.Mae'n debygol y bydd angen cynllun cyflawni graddol o 10 mlynedd o hyd o leiaf i gyd-fynd â'r weledigaeth a gyflwynir uchod, er mwyn cyflawni ei huchelgais yn llawn, ond rhaid i'r daith ddechrau yn awr, ac mae rhai camau y gellir eu cymryd ar unwaith.

169.Y cam cywir nesaf fydd ymgynghoriad helaeth â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, eu gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol, ac ystod eang o randdeiliaid eraill, i fynd â'r gwaith hwn i'w iteriad nesaf.

170. Wrth i'r cyfnodau ymgynghori a chynllunio symud ymlaen, bydd yn hanfodol cofio bod gan ofal cymdeithasol a chymorth gylch gwaith 'o'r crud i'r bedd'. Bydd angen rhoi sylw arbennig i wasanaethau plant fel rhan benodol o'r system, er mwyn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion gofal a chymorth penodol ein plant yng Nghymru.

171. Rhaid i'n Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol hefyd adlewyrchu'n fwy digonol amrywiaeth ein pobl yng Nghymru, ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig, daearyddiaeth, a grwpiau demograffig, er mwyn diwallu anghenion unigol pobl yn well. Mae'r Grŵp yn annog camau nesaf y gwaith ar sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i gynnwys ymgysylltu ystyrllon, cydgynhyrchu, ac asesu effaith gofalus, gan weithio'n uniongyrchol gyda dinasyddion a grwpiau cymunedol.

172.Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am adnoddau, yn enwedig: o ran buddsoddi yn y gweithlu; sicrhau bod gan weithwyr rheng flaen yr adnoddau i gynnal sgysrsiau "beth sy'n bwysig"; yr angen i ariannu ehangu mesurau ataliol; ac ariannu'r gwasanaeth craidd presennol, yn ogystal â thalu er mwyn i'r gwasanaeth ddod yn rhad ac am ddim.

173. Roedd mwyafrif y grŵp o'r farn fod angen i'r Llywodraeth flaenoriaethu buddsoddiad ychwanegol yn y gweithlu ac yn y gwasanaeth craidd presennol (gan gynnwys gwariant ataliol) er mwyn sicrhau bod gennym wasanaeth sy'n rhoi'r gofal a'r cymorth y mae arnynt ei angen i'r rhai sy'n dibynnu arno, a bod gan y gwasanaeth weithlu digonol, sefydlog, llawn cymhelliant sy'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi cyn gwneud y gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, rhaid dweud bod lleiafrif sylweddol a deimlai, er budd tegwch a chyfiawnder, y dylid symud ymlaen â chynigion ar yr un pryd, i adlewyrchu'r pwysau a deimlir gan ddinasyddion ar hyn o bryd.

ATODIAD 1 – CYLCH GORCHWYL

Cytundeb Cydweithredu – Uchelgais a Rennir ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol

Y Grŵp Arbenigol – Cylch Gorchwyl

Y Cyd-destun

Mae gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yr un uchelgais i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sydd am ddim lle a phan fo'i angen. Bydd gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb llywodraeth leol ac yn parhau fel gwasanaeth cyhoeddus, wedi'i wreiddio yn ein hymrwymiad cyffredin i gydraddoldeb a hawliau dynol a lle mae llais defnyddiwr y gwasanaeth yn cael ei glywed yn glir.

Mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn sefydlu Grŵp Arbenigol i ddarparu argymhellion ynghylch camau ymarferol y gellir eu cymryd, ar ôl Ebrill 2022, tuag at yr uchelgais hwnnw. Mae hyn gyda'r bwriad o gytuno ar gynllun gweithredu erbyn diwedd 2023.

Bydd y gwaith o weithredu polisi arfaethedig yn parhau, yn unol ag ymrwymadau a wnaed drwy Gyllideb Ddrafft 2022-2025, gan gynnwys camau i ddarparu ar gyfer system well o ofal a gwaith integredig a thuag at gydnabyddiaeth a chyflogau cyfartal i weithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd. Defnyddir argymhellion Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i gynhyrchu gwelliannau ehangach i'r gweithlu, gan gynnwys ei allu i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, bydd Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gydag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu Gofal a Chymorth, a chryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydlu Swyddfa Genedlaethol i ysgogi cynnydd.

Pwrpas y Grŵp Arbenigol

Nod

- Cynnig argymhellion ynghylch camau ymarferol y gellir eu cymryd, ar ôl Ebrill 2022, tuag at greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol lle mae gofal am ddim lle a phan fo'i angen. Rhaid i'r camau ymarferol hyn fod yn gyson â gofal cymdeithasol yn dal i fod yn gyfrifoldeb llywodraeth leol ac yn parhau i fod yn wasanaeth cyhoeddus, gan ystyried y fframwaith gwariant a osodwyd gan Gyllideb Ddrafft 2022-2025.

Amcanion

- Cynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth gyfredol ynglŷn â thalu am/ariannu gofal cymdeithasol a materion cysylltiedig, gan gynnwys yng nghyd-destun datblygiadau ar lefel y DU.
- Ystyried y llwybr gorau posibl a'r camau ymarferol tuag at Ofal Cymdeithasol yn dod yn rhad ac am ddim lle a phan fo'i angen drwy greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol gan gynnwys unrhyw oblygiadau ariannol a sut i gyllido'r rhain.
- Ystyried dilyniannu'r camau hyn gyda gwelliannau pellach i gyflog a thelerau ac amodau'r gweithlu gofal cymdeithasol tuag at gydraddoldeb â graddfeydd cyflog y GIG, a sicrhau bod gofal o ansawdd ar gael i bawb sydd ei angen.
- Ystyried sut i gynyddu canran y gofal a ddarperir yn gyhoeddus, gan gynnwys rôl perchnogaeth llywodraeth leol a mentrau cydweithredol.
- Nodi unrhyw newidiadau pellach i systemau, prosesau a dulliau cyflawni, ynghyd ag unrhyw heriau diwylliannol sy'n ymwneud â chynghor y Grŵp.
- Datblygu llinellau amser a cherrig milltir allweddol, gan gynnwys ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol a'r cyhoedd.

Yr hyn oedd i'w gyflawni

Nodi ystyriaethau ac argymhellion y Grŵp Arbenigol ynghylch y camau nesaf ymarferol mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru ac Aelodau Dynodedig erbyn diwedd mis Ebrill 2022. Bydd hyn yn cyflawni briff y Grŵp Arbenigol i argymhell camau ymarferol tuag at y weledigaeth a rennir.

Aelodaeth

Abyd Quinn Aziz

Charles Tallack

Cian Sion

Dilwyn Owen Williams (Cydgadeirydd)

Gio Isingrini

Kelly Andrews

Yr Athro Kamila Hawthorne

Kate Young (Cydgadeirydd)

Yr Athro Mark Llewellyn

Mark Turner

Mary Wimbury

Rhian Davies

Rhian Huws Williams

Dr Vanessa Webb

Llinellau amser

Bydd y Grŵp yn ymgynnull yn hyblyg. Bydd yn gosod ei amserlen ei hun gyda chyfarfodydd a chysylltu mewn grwpiau bychain ychwanegol yn ôl yr angen. Mae adroddiad i Lywodraeth Cymru a'r Aelodau Dynodedig i'w gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill 2022.

ATODIAD 2 – Rhestr o'r Dogfennau a Adolygwyd

Deddfwriaeth a Pholisi Cymru

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Trosolwg – Gofal Cymdeithasol Cymru

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Llywodraeth Cymru – Y Rhaglen Lywodraethu, Diweddariad: Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon o'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys y Cytundeb Cydweithredu

Y Cytundeb Cydweithredu

Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: 12 Ionawr 2021

Datganiad Ysgrifenedig: Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: 25 Ionawr 2021

Datganiad Llafar: Y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: 9 Chwefror 2021

Llywodraeth Cymru – Y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Ymatebion i'r ymgynghoriad: 29 Mehefin 2021

Datganiad Llafar: Y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – y camau nesaf: 6 Gorffennaf 2021

Datganiad Ysgrifenedig: Y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth - y camau nesaf: 29 Hydref 2021

Llywodraeth Cymru – Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Fforwm Gwaith Gofal Cymdeithasol – Datganiad Sefyllfa 16 Mawrth 2021

Darllen Ehangach:

Yr angen i sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru : Papur gan y Gweinidog (bellach) dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar 29 Medi 2016

Ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Dadansoddiad o ddewisiadau ar gyfer defnyddio cyllid gofal cymdeithasol ychwanegol

Gofalwyr Cymru - Pedair sesiwn frifio flynyddol

Comisiwn Dilnot: Adroddiad Ariannu Gofal Tecach 2011

Comisiwn Dilnot: Cyfrol 2 – Tystiolaeth a Dadansoddiad

Comisiwn Dilnot: Cyfrol 3 – Dogfennau Ategol

Ymgynghoriad Plaid Cymru ar Uno Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Papur Ymgynghori Comisiwn Gofal Plaid Cymru: Datblygu Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Senedd Cymru: Ymchwil y Senedd Ionawr 2022

Ardal: Arbed Arian Drwy Wneud Y Peth Cywir

Adroddiad: Gofal Integredig – Safbwynt Rhyngwladol (Chwefror 2022)

Prifysgol De Cymru - Mesur y Mynydd: Adroddiad Terfynol Yr Hyn sydd o Wir Bwys mewn Gofal Cymdeithasol i Unigolion yng Nghymru

Dadansoddiad Cyllidol Cymru (Cian Sion a Michael Trickey) 2020 – Dyfodol Gofal yng Nghymru: Adnoddau ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Dadansoddiad Cyllidol Cymru (Cian Sion a Michael Trickey) 2020 - Cost gofal personol am ddim: gwersi o'r Alban

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Adroddiad ar fodolau ariannu arloesol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol

Papur y Sefydliad Iechyd: Bydd y gymdeithas gyfan yn elwa o ddiwygio gofal cymdeithasol [DS. Wedi'i gyhoeddi cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi diwygiadau i ffioedd gofal cymdeithasol]

Llywodraeth yr Alban: Gofal cymdeithasol, Tudalen Trosolwg

Llywodraeth yr Alban: Ymgynghoriad a lansiwyd cyn 'diwygiad y sector cyhoeddus mwyaf ers degawdau' Cyhoeddwyd: 09 Awst 2021

Papur Gorchymyn Llywodraeth y DU – Adeiladu'n Ôl yn Well – Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU – Papur Gwyn Pobl Wrth Galon Gofal: Diwygio Gofal Cymdeithasol i Oedolion